

Yn y Rhifyn hwn ...

David Lankshear ar

**Adolygiad o ysgolion Eglwys
yng Nghymru**

Sylvia Baker ar

**Arolwg o ysgolion
Cristnogol newydd**

Gavin Craigen ar

Her AG Ôl-16

Tania ap Siôn ar

AG yn Llyfrgell Deiniol Sant

Aled Jones-Williams ar

(Ail) Greu Iesu

AGweddau

Cyrol 1, Rhan 1, Awst 2009

Golygyddion Ms Tania ap Siôn,
Y Parchedig Ganon yr Athro Leslie J Francis.

Gellir cysylltu â'r golygyddion yng
Nghanolfan y Santes Fair, Llyfrgell Deiniol Sant,
Church Lane, Penarlâg, Sir y Fflint, CH5 3DF.
Ffôn: 01244 527003,
E-bost: tania.ap.sion@st-deiniols.org

Bwrdd Golygyddol
Y Parchedig Athro Jeff Astley,
Prifysgol Durham, Lloegr;
Ms Vicky Barlow, Ymgynghorydd AG, Cymru;
Mr Gavin Craigen, Arolygydd/Ymgynghorydd
AG, Cymru;
Y Parchedig Peter Francis, Llyfrgell Deiniol Sant,
Cymru;
Dr David Lankshear, Canolfan y Santes Fair yn
Llyfrgell St Deiniol, Cymru;
Y Parchedig Ddr Andrew Village,
Prifysgol York St John, Lloegr;
Y Parchedig Ganon yr Athro Michael West,
Rheithor a Deon Rhanbarthol Wrecsam, Cymru;
Dr Emyr Williams, Prifysgol Warwick, Lloegr.

Cyfieithydd
Ann Jenkins

Hysbysebu
Gareth Longden. Ffôn: 01244 527003,
E-bost: stmaryscentre@st-deiniols.org

Cyhoeddwyd gan Canolfan y Santes Fair,
Llyfrgell St Deiniol, Penarlâg, Sir y Fflint, CH5
3DF.

Dylunio Gwasg Dwyfor.

Gwefannau
cymraeg.st-marys-centre.co.uk (Cymraeg)
www.st-marys-centre.co.uk (Saesneg)

Hawlfraint © 2009
Canolfan y Santes Fair yn Llyfrgell Deiniol Sant

ISSN 2041-0743

Cynnwys

Ysgolion yr Eglwys yng Nghymru: persbectif o fewn yr Eglwys David W Lankshear a Mandy Robbins	4
Yr ysgolion Cristnogol newydd a'u haelodau di-gred Sylvia Baker	10
Talcen caled? Darpariaeth ar gyfer AG yng nghyd-destun Ôl-16 Gavin Craigen	14
Cefogi addysg grefyddol yn Llyfrgell Deiniol Sant Tania ap Siôn	18
(Ail) Greu Iesu Aled Jones-Williams	22
Blwyddyn ym mywyd ... Prif arholwr Christopher Owens	24
Dan Sylw Gill Vaisey	28
Adolygiadau Tania ap Siôn, Ann Suter	32
Cyfarwyddiadau i Gyfranwyr	39



Pleser yw cyflwyno'r rhifyn cyntaf o'r cylchgrawn dwyieithog ar-lein, *AGweddau*. Cyhoeddir *AGweddau* ddwywaith y flwyddyn ac mae'n cynnig i'r rhai hynny sy'n ymwneud ag AG yn broffesiynol, erthyglau wedi eu hadolygu gan gyd arbenigwyr, i gefnogi addysg grefyddol ym meysydd ymchwil, datblygiad y cwricwlwm, crefydd a diwylliant, ac adnoddau. I gyd fynd â'r cylchgrawn cyhoeddir cylchlythyr ar-lein, *Bwletin AG*, sy'n canolbwyntio ar eitemau newyddion byr ac fe'i cyhoeddir yn amlach.

Yn y rhifyn hwn o *AGweddau*, mae'r adran 'Ymchwil' yn trafod dau broiect ymchwil yn ymwneud ag ysgolion ffydd ac yn ystyried peth o'r canlyniadau. Yn *Ysgolion yr Eglwys yng Nghymru – persbectif o fewn yr Eglwys*, mae David Lankshear a Mandy Robbins yn archwilio agweddau Clerigwyr yr Eglwys yng Nghymru at ysgolion yr Eglwys yng Nghymru. Mae'r canlyniadau hyn yn rhan o'r Adroddiad manwl, *Church in Wales Education Review* y chwaraeodd David ran amlwg ynddo. Yn *Yr Ysgolion Cristnogol newydd a'u disgyblion di-gred*, mae Sylvia Baker hefyd yn cyflwyno rhai o ganlyniadau project llawer mwy sy'n canolbwyntio ar yr ysgolion Cristnogol annibynnol newydd ym Mhrydain. (Mae pump ysgol o'r fath yng Nghymru, neu fwy, efallai). Yn ei herthygl, mae Sylvia'n edrych ar effaith yr ysgolion Cristnogol hyn ar safbwyntiau a gwerthoedd eu disgyblion sy'n honni nad ydynt yn coleddu unrhyw greddau crefyddol.

Yn yr adran ar 'Ddatblygu'r Cwricwlwm' mae Gavin Craigen yn bwrw golwg manwl ar addysg grefyddol yn ei erthygl, *Talcen caled? Darpariaeth ar gyfer AG yng nghydestun Ôl-16* gan godi rhai cwestiynau heriol. Mae Tania ap Siôn, yn *Cefnogi addysg grefyddol yn Llyfrgell Deiniol Sant*, yn cyflwyno gwaith Canolfan y Santes Fair a sylfaenwyd yn Llyfrgell Deiniol Sant y llynedd. Mae'r cyflwyniad yn ymdrin â diddordebau'r Ganolfan mewn ymchwil, datblygu'r cwricwlwm a darparu cyrsiau achrededig ar gyfer parhad mewn datblygiad proffesiynol athrawon a chlerigwyr.

Mae'r adran 'Crefydd a Diwylliant' yn rhoi amlygrwydd i Aled Jones-Williams sy'n rhannu'r hyn a'i ysgogodd i ysgrifennu'r ddrama *Iesu!* a dderbyniodd glod gan y beirniaid (a chreu dadlau, i rai.) Bu Theatr Genedlaethol Cymru â'r ddrama ar daith trwy Gymru yn ystod yr hydref y llynedd.

Mae 'Blwyddyn ym mywyd...' yn canolbwyntio'n fanwl ar swyddi penodol sy'n berthnasol i addysg grefyddol. Yn y rhifyn hwn, rydym yn cael golwg ar waith prif arholwr o berspectif Chris Owens, prif arholwr Astudiaethau Crefyddol Manyleb B ac uwch arholwr Islam yn Astudiaethau Crefyddol Manyleb A gyda CBAC.

Rhennir yr adran olaf, 'Adnoddau', yn ddwy ran: *Dan Sylw* ac *Adolygiadau*. Mae *Dan Sylw* yn darparu gofod i awduron deunyddiau addysg grefyddol i drafod deunydd a gyhoeddwyd ganddynt yn ddiweddar. Yn y rhifyn hwn, mae Gill Vaisey'n ysgrifennu am ei hadnodd newydd, *Yr Adar Bach*, y trydydd teitl yn ei chyfres o storïau Mwslimaidd ar gyfer disgyblion y Cyfnod Sylfaen. Fel yr awgryma'r teitl mae *Adolygiadau* yn cyflwyno a chloriannu amrediad o adnoddau ar gyfer addysg grefyddol a chyd addoli.

Tania ap Siôn
Golygydd

Ysgolion yr Eglwys yng Nghymru: persbectif o fewn yr Eglwys

David W Lankshear a Mandy Robbins

Cyflwyniad

Ym 2006 lansiodd yr Eglwys yng Nghymru arolwg o'i gwaith ym myd addysg. Ffocws yr arolwg oedd gwaith y 168 o ysgolion cynradd a'r pedair ysgol uwchradd yr Eglwys yng Nghymru. Penderfynwyd sicrhau o'r dechrau fod yr adroddiad wedi ei sylfaenu ar data wedi ei seilio ar ffrwyth nifer o ymchwiliadau. Ymhlith y materion a archwiliwyd yr oedd dwy o'r themâu y canolbwyntiwyd arnynt yn *The Way Ahead* (Dearing, 2001): hunaniaeth Cristnogol ysgolion yr Eglwys yng Nghymru a'r alwedigaeth Gristnogol i addysgu.

Bydd yr erthygl hon yn cyflwyno canlyniadau'r ddau arolwg sy'n ymwneud â'r cwestiwn, 'Beth yw dirnadaeth plwyfi'r Eglwys yng Nghymru o ysgolion yr Eglwys yng Nghymru?'

Methodoleg

Yn yr arolwg cyntaf, anfonwyd holiadur i bob clergwr yn yr Eglwys yng Nghymru a oedd yn canolbwyntio ar eu hymrwymiad i'r ysgolion yn eu plwyfi a'u barn ar addysg yn ysgolion yr Eglwys yng Nghymru. O ganlyniad i'r ymchwil hwn derbyniwyd 275 o ymatebion, a gynrychiolai gyfanswm o 60% o glerigwyr.

Yn yr ail arolwg, anfonwyd holiadur i ysgrifennydd pob Cyngor Plwyf Eglwysig yr Eglwys yng Nghymru, a ganolbwyntiai ar gyswllt y plwyf â'r ysgolion yn ogystal â nifer y plant, pobl ifanc ac oedolion a oedd yn rhan o'r gymuned Gristnogol a oedd yn gweithredu yn eu plwyfi. Dychwelwyd 538 o atebion a gynrychiolai 51% o blwyfi'r Eglwys yng Nghymru.

Cyflwynwyd canlyniadau'r ymholiadau hyn i'r grŵp adolygu ac fe'u defnyddiwyd ar gyfer y ddogfen ymgynghorol. Daeth y cyfnod ymgynghorol i ben ar 30 Medi 2008.

Canlyniadau

Ymrwymadau clergwyr o safbwynt amser

Mae rhai bywoliaethau'r Eglwys yng Nghymru o gryn faint a gallant gynnwys mwy nag un teip o ysgol. Adroddodd 39% o'r clergwyr a ymatebodd i'r holiadur fod ganddynt ysgol gynradd yn eu plwyf ac adroddodd 36% eu bod yn aelodau o fwrdd llywodraethol yr ysgol (mae rhai clergwyr yn dirprwyo'r rôl o lywodraethwr 'ex-officio' i gydweithiwr a gall hyn esbonio'r gwahaniaeth rhwng y ddau rif uchod). O blith y rhai a oedd yn aelodau o'r corff llywodraethol roedd mwy na thraean yn gweithredu fel 'Cadeirydd y Llywodraethwyr,' gwaith trwm sy'n cymryd amser i'w gyflawni.

Roedd y cyfartaledd o glerigwyr a adroddodd eu bod yn arwain gwasanaethau addoli mewn ysgolion o'r Eglwys yng Nghymru'n cyfateb yn uniongyrchol i'r rhai a adroddodd eu bod ar y bwrdd llywodraethol (36%). Mae hyn i'w ddisgwyl gan y gofynnir, mae'n debyg, i'r offeiriad sy'n aelod o'r bwrdd llywodraethol i arwain y gwasanaeth. Adroddodd dros draean o'r rhai a arweiniai'r addoliad fod hyn yn cynnwys arwain gwasanaethau'r Ewcharist yn yr ysgol. Mae hyn yn adlewyrchu'r gwahanol arferion mewn ysgolion o safbwynt dathlu'r Ewcharist gyda disgyblion ysgolion cynradd.

Er mai gweithredu fel aelodau ar fwrdd llywodraethol ysgol ac arwain gwasanaethau addoli oedd dwy o'r swyddi mwyaf cyffredin i'r clergwyr o safbwynt ysgolion yr Eglwys yng Nghymru, mae'r cyfartaledd o'r wythnos waith a neilltuir ar gyfer ysgolion yn dynodi eu bod yn ymdrin â thasgau eraill yn ogystal, yn ôl yr adroddiad. Mae'n debygol fod y tasgau ychwanegol hyn yn cynnwys cyfrannu tuag at addysg grefyddol a gofal bugeiliol am ddisgyblion, rhieni a staff. O safbwynt neilltuo amser roedd 43% o'r deiliaid yn treulio cyfran o bob wythnos waith yn gwasanaethu ysgolion cynradd yr Eglwys yng Nghymru gyda mwy na'u hanner yn ymrwymo i neilltuo hanner diwrnod bob

wythnos. Mae'n werth nodi hefyd fod 77% o'r deiliaid yn adrodd eu bod wedi ymrwymo i dreulio amser yn gweithio ag ysgolion cymunedol, gyda mwy na'u chwarter yn neilltuo mwy na hanner diwrnod bob wythnos.

Amgyffred clerigwyr o ysgolion yr Eglwys yng Nghymru

Cafwyd ymateb gan y deiliaid i amrediad o osodiadau am ysgolion yr Eglwys yng Nghymru ar raddfa 5 pwynt 'Likert.' Yn yr erthygl hon cywasgwyd y pum pwynt i dri: 'cytuno,' 'heb fod yn siwr,' ac 'anghytuno'. Roedd un grŵp o osodiadau'n gofyn am safbwyntiau'r clerigwyr ynglŷn â lle ysgolion yr Eglwys yng Nghymru yn y gyfundrefn addysg ehangach. Dengys **tabl 1** eu hymatebion i osodiadau ar y pwnc hwn.

Mae'r gosodiadau hyn yn adlewyrchu peth o'r dadleuon cyfredol o fewn y gyfundrefn addysg yng Nghymru a Lloegr. Yn fras, gellid ystyried bod yr ymatebion hyn yn cefnogi parhad lle ysgolion yr Eglwys yng Nghymru yn y gyfundrefn addysg, er ei bod yn amlwg hefyd fod cefnogaeth i'r cysyniad o ysgolion rhyng enwadol.

Roedd yr ail grŵp o osodiadau'n chwilio am farn clerigwyr ynglŷn â thasg yr ysgolion eglwysig o safbwynt cenhadaeth yr eglwys. Mae **tabl 2** yn cynnwys eu hymatebion i osodiadau yn y maes hwn.

Y brif ragdybiaeth a brofir yn y pedwar cyntaf o'r cwestiynau hyn yw bod ysgolion yr Eglwys yng Nghymru yn gyfrwng i addysgu'r ffydd Cristnogol i blant gyda'r bwriad o'u troi i arddel y grefydd ym marn clerigwyr. Tra bod eu barn, fe ymddengys, yn rhanedig parthed y cwestiynau mwyaf uniongyrchol, mae'r mwyafrif yn amlwg yn credu eu bod yn dderbyniol yn addysgol i'r ysgolion hyn addysgu'r ffydd ac i'w derbyn a'i harfer. Ceir awgrym nad ydynt lawn mor argyhoeddedig fod ysgolion yn gwneud hyn yn effeithiol.

Pwrpas y trydydd grŵp o osodiadau oedd archwilio barn clerigwyr ar gydaddoli yn yr ysgol. Mae **tabl 3** yn dangos eu hymatebion i osodiadau yn y maes hwn. Er mai traean o glerigwyr gydag ysgolion eglwysig yn eu

plwyfi sy'n arwain gwasanaethau'r Ewcharist, dengys y canlyniadau'n glir fod nifer sylweddol yn cefnogi cynnal yr Ewcharist mewn ysgolion cynradd ond nid ydynt wedi darbwyllo'u hysgolion yr Eglwys yng Nghymru eu hunain i fabwysiadu'r arfer hwn.

Cyswllt â'r plwyfi

Mae'n bosibl fod clerigwyr o'r Eglwys yng Nghymru â mwy nag un plwyf yn eu gofal. Oherwydd hyn, penderfynwyd gofyn am safbwynt aelod lleig sy'n gweithio ym mhob plwyf ynglŷn â chysylltiadau'r plwyf â'r ysgolion a'u hymwneud â phlant, pobl ifanc ac oedolion. Mae ysgrifenyddion Cynghorau Plwyfi Eglwysig yn ymgynnull, trefnu busnes a chofnodi penderfyniadau'r corff sy'n gyfrifol am redeg yr eglwys yn lleol ac felly yn grŵp amlwg i drosglwyddo barn lleigwyr ar waith yr eglwys yn lleol.

O ysgrifenyddion Cynghorau Plwyf Eglwysig a ymatebodd i'r holiadur, adroddodd 23% fod ysgol gynradd yr Eglwys yng Nghymru yn eu plwyf, ac adroddodd yr un cyfartaledd o'r bron fod y cyswllt rhwng y plwyfi ac ysgolion cynradd yr Eglwys yng Nghymru yn glos neu yn glos iawn. Yn ychwanegol, adroddodd 40% fod cyswllt agos rhwng y plwyf a'r athrawon a 37% yn datgan fod cyswllt clos rhwng y plwyf a'r llywodraethwyr. Roedd aelodau'r ddau grŵp fel ei gilydd (athrawon a llywodraethwyr) ynghyd â gweithwyr cynorthwyol mewn ysgolion â chynrychiolwyr ar eu Cynghorau Plwyf Eglwysig eu hunain. Yn ogystal, adroddodd 37% fod y berthynas ag ysgolion lleol ar agenda eu cynghorau eglwysig yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ac adroddodd 7% fod gan yr eglwys bennawd cyllid ar gyfer cefnogi gwaith yn eglwys lleol. Adroddodd 5% fod yr eglwys leol yn defnyddio adeilad yr eglwys a 47% fod gweithgareddau ar y cyd rhwng yr ysgolion lleol a'r eglwys yn digwydd yn eu plwyf.

Cyswllt plwyfol â phlant a phobl ifanc

Holwyd ysgrifenyddion Cynghorau Plwyf Eglwysig ynglŷn â gwaith eu plwyfi gyda phlant, pobl ifanc ac oedolion er mwyn

archwilio'r berthynas rhwng cyswllt eu plwyfi ag ysgolion a'u gwaith mewn cyddestun plwyfol.

Adroddodd cyfanswm o 284 o ysgrifenyddion plwyfol fod cyswllt clos neu glos iawn rhwng eu plwyfi hwy ag o leiaf un math o ysgol gynradd (53% o'r sampl) ac adroddodd 254 nad oedd cyswllt clos neu glos iawn yn bodoli ag unrhyw fath o ysgol gynradd (53% o'r sampl). Cyfeirir at y ddau is-grŵp fel y 'plwyfi cyswllt' a'r 'plwyfi heb gyswllt.'

Dengys **tabl 4** y cyfartaledd o blwyfi cyswllt a heb gyswllt gydag amrediad o weithgareddau yn ymwneud â phlant a phobl ifanc a drefnwyd o fewn yr eglwys. Ym mhob achos mae'r gwahaniaeth rhwng y ddau grŵp yn arwyddocaol yn ystadegol.

Mae'r tabl hwn yn awgrymu fod mwy o weithgareddau ar gael i blant a phobl ifanc mewn eglwysi yn y plwyfi cyswllt o'u cymharu â phlwyfi heb gyswllt â'r ysgolion. Dylid nodi, fodd bynnag, nad oedd un weithgaredd benodol yn cael ei chynnig gan fwy na 35% o'r plwyfi cyswllt ac mae'n eglur nad oedd rhai plwyfi heb gyswllt yn cynnig yr un o'r gweithgareddau hyn.

Mae **tabl 5** yn dangos y nifer o ymgeiswyr ar gyfer confirmasiwn mewn gwahanol fandiau oedran ac yn ôl eu rhyw o safbwynt plwyfi cyswllt a phlwyfi heb gyswllt. Mae'r tabl hwn yn rhoi crynodeb o wybodaeth llawer mwy manwl wedi ei chasglu o gynnwys yr holiadur. Mae'r lefelau o arwyddocâd ystadegol yn cyfeirio at y wybodaeth honno.

Yn **nhabl 5** mae'r gwahaniaethau o'r arwyddocâd ystadegol pennaf ymhlith y grwpiau o oedolion, ac yn arwyddocaol hefyd ym mhob un o'r categorïau eraill. Yn ogystal, mae'r tabl hwn yn awgrymu fod yr eglwysi hynny â chyswllt da ag o leiaf un ysgol gynradd yn fwy tebygol o fod â'r nifer uchaf o ymgeiswyr ar gyfer eu confirmio na'r eglwysi hynny nad oedd â'r un lefel o gyswllt. Nid yw'n dangos, fodd bynnag, fod y naill yn achosi'r llall.

Gofynnwyd i'r atebwyr roi amcangyfrif o'r nifer arferol o oedolion, disgyblion, ysgolion

uwchradd a chynradd a'r plant dan oedran ysgol a fynychai'r addoliad ar y Sul. Mae **tabl 6** yn cyflwyno'r ffigyrau ar gyfer y grwpiau o bob oedran ar wahân.

Mae'r gwahaniaethau ynghlwm wrth bob un o'r grwpiau hyn yn arwyddocaol yn statudol ar y lefel .001. Mae'n amlwg fod yr eglwysi a adroddodd fod ganddynt gysylltiadau clos ag ysgol gynradd hefyd yn adrodd fod nifer uwch yn y gwasanaethau addoli o fewn grwpiau o bob oedran na'r plwyfi hynny lle nad oedd cyswllt clos ag ysgol gynradd. Yr hyn a ddangoswyd eisoes yn yr erthygl hon yw os oes ysgol gynradd yr Eglwys yng Nghymru o fewn ei phlwyf mae cysylltiad clos rhyngddynt yn ddieithriad, o'r bron; pan fo ysgol gynradd gymunedol yn y plwyf nid oes cysylltiad clos rhyngddynt bob amser.

Trafodaeth

Mae'r canlyniadau hyn yn dangos fod nifer o offeiriaid ag ymrwymiad dwfn i ysgolion cynradd lleol yn gyffredinol ac yn cydweithio â hwy. Mae hyn yn wir bron yn ddieithriad pan uniaethir yr ysgol gynradd â'r Eglwys yng Nghymru. Awgryma ymhellach fod ysgrifenyddion Cynghorau Plwyfi Eglwysig yn ymwybodol o'r cysylltiadau hyn a bod ganddynt ddealltwriaeth o'u harwyddocâd i'r plwyf. Fodd bynnag, nid cyfrifoldeb yr offeiriaid yn unig yw creu cyswllt â'r plwyf. Mae'n amlwg fod athrawon, staff cynorthwylol a llywodraethwyr ysgolion yn gweithio ynddo. Daw hyn i'r amlwg trwy gyfrwng eu presenoldeb ar Gynghorau Plwyfi Eglwysig yn ôl yr adroddiadau.

Tra bod offeiriaid yn amlwg yn gefnogol i bresenoldeb parhaol yr Eglwys mewn ysgolion Cymraeg o fewn y gyfundrefn addysg, ceir tystiolaeth y byddai'n well ganddynt weld yr ysgolion hyn yn adlewyrchu eu hunaniaeth Anglicanaidd, nid yn unig trwy gyfrwng eu ethos a'r addoliad a ddarperir yn gyffredinol ond yn benodol trwy ddarparu gwasanaeth yr Ewcharist. Mae hwn yn fater sydd ynghlwm wrth batrwm addoli ysgolion yr Eglwys yng Nghymru ac yn un y bydd angen i'r arolwg

cyfredol dalu sylw iddo.

Mae'r ymchwil hefyd yn awgrymu y gall plwyfi elwa o bosibl trwy gydweithio ag ysgolion cynradd lleol, gan fod y plwyfi hynny â chyswllt da gyda ysgolion â mwy o blant, pobl ifanc ac oedolion yn cymryd rhan yn eu haddoliad o'u cymharu â'r plwyfi hynny nad oes ganddynt gyswllt o'r fath. Gellid dadlau nad y cyswllt sy'n creu'r canlyniadau hyn a bod y plwyfi hyn yn digwydd bod yn weithgar a bywiog gan ddenu pobl atynt. Efallai hefyd fod ganddynt gysylltiadau da â'u cymuned leol. Fodd bynnag, mae casgliadau'r ymchwil cyfredol yn gyffredinol yn cyfateb i rai ymchwil cynharach a wnaethpwyd yn Lloegr. Ceir adroddiad arnynt gan Francis a Lankshear (Francis and Lankshear 1990, 1991) ac o'r herwydd maent yn awgrymu perthynas fwy uniongyrchol.

Gwendid yr ymchwil hwn yw ei bod yn anodd llunio dolen gyswllt rhwng ymatebion offeiriad ac ysgrifenyddion y Cynghorau Plwyf Eglwysig.

Casgliad

Awgryma'r data fod offeiriad yr Eglwys yng Nghymru i raddau helaeth yn gefnogol i ysgolion cynradd yr Eglwys yng Nghymru ac yn cydweithio â hwy mewn ffordd sy'n dangos ymrwymiad sylweddol. Yn ogystal, mae'r data'n awgrymu y gellir gweld manteision ymrwymiad o'r fath ym mywyd y plwyf gan fod ysgrifenyddion y Cynghorau Plwyf Eglwysig yn adrodd fod mwy o gydweithio â phlant, pobl ifanc ac oedolion ym mywyd y plwyf lle mae cysylltiadau da â'r ysgolion cynradd lleol.

Dylai'r sawl sy'n cymryd rhan yn yr arolwg ac yn ystyried polisi'r Eglwys yng Nghymru parthed eu hysgolion gael eu calonogi gan y canlyniadau pan fyddant yn gwneud argymhellion ar gyfer datblygiad ysgolion yr Eglwys yng Nghymru yn y dyfodol.

Cyfeiriadau

Dearing, R. (ch.) (2001), *The Way Ahead: Church of England schools in the new millennium*, London, Church House Publishing.

Francis, L.J. and Lankshear, D.W. (1990), The impact of church schools on village church life, *Educational Studies*, 16, 117-129.

Francis, L.J. and Lankshear, D.W. (1991), The impact of church schools on urban church life, *School Effectiveness and School Improvement*, 2, 324-335.

Mae David Lankshear yn Arweinydd Rhaglenni ar gyfer y cyrsiau achrededig mewn Addysg Grefyddol ac Astudiaethau Ysgolion Eglwysig yng Nghanolfan y Santes Fair ar gyfer Addysg Grefyddol yn Llyfrgell Deiniol Sant, Cymrawd Ymchwil yn Uned Crefyddau ac Addysg Warwick, Prifysgol Warwick, ac Ysgrifennydd Education Review yr Eglwys yng Nghymru.

Mae Mandy Robbins yn Uwch Gymrawd Ymchwil yn Uned Crefyddau ac Addysg Warwick, Prifysgol Warwick, ac yn Gymrawd Ymchwil yng Nghanolfan y Santes Fair ar gyfer Addysg Grefyddol yn Llyfrgell Deiniol Sant.

Tabl 1
Barn clerigwyr ar le ysgolion yr Eglwys yng Nghymru yn y gyfundrefn addysg

	Cytuno %	? %	Anghytuno %
Dylid trosglwyddo ysgolion yr Eglwys yng Nghymru i ofal y llywodraeth	4	12	85
Mae gormod o ysgolion gan yr Eglwys yng Nghymru	5	28	67
Dylai'r Eglwys yng Nghymru ddatblygu mwy o ysgolion uwchradd	67	26	8
Byddwn yn cefnogi datblygu ysgolion eglwysig rhyng-enwadol	68	21	11
Mae ysgolion yr Eglwys yng Nghymru'n creu rhaniadau hiliol	1	13	86
Mae ysgolion yr Eglwys yng Nghymru'n creu rhaniadau cymdeithasol	3	14	83
Mae cyfundrefn ysgolion yr Eglwys yng Nghymru wedi goroesi eu defnyddioldeb	3	17	80
Mae gan athrawon Cristnogol fanteision annheg o safbwynt dyrchafiad yn ysgolion yr Eglwys yng Nghymru	1	38	62
Dim ond pobl eglwysig ymroddedig a ddylid gael eu penodi'n athrawon i addysgu yn ysgolion yr Eglwys yng Nghymru	41	23	36

Tabl 2
Barn clerigwyr ar y berthynas rhwng ysgolion yr Eglwys yng Nghymru

	Cytuno %	? %	Anghytuno %
Mae ceisio gwthio'r ffydd Gristnogol ar blant yn anniwel yn addysgol	37	24	39
Nid tasg ysgolion yr Eglwys yng Nghymru yw symbylu plant i dderbyn ffydd Grefyddol	29	20	51
Mae'n addysgol annerbyniol i ysgolion yr Eglwys yng Nghymru geisio addysgu'r ffydd Gristnogol	2	12	87
Dylai ysgolion yr Eglwys yng Nghymru annog disgyblion i dderbyn ac ymarfer y ffydd Gristnogol	76	18	6
Mae ysgolion yr Eglwys yng Nghymru'n aml yn peri i'w disgyblion bellhau oddi wrth yr eglwys	6	37	57
Mae ysgolion yr Eglwys yng Nghymru'n aml yn peri i'w disgyblion wrthod Cristnogaeth	5	33	63
Nid oes gan ysgol yr Eglwys yng Nghymru ddigon o gyswllt â'r offeiriad yn fy mhlwyf i	3	58	39

Tabl 3
Barn clerigwyr ar addoliad yn ysgolion yr Eglwys yng Nghymru

	Cytuno %	? %	Anghytuno %
Dylai ysgolion yr Eglwys yng Nghymru addysgu eu disgyblion am wasanaeth y Cymun	83	13	4
Dylid dathlu'r Cymun yn ysgolion yr Eglwys yng Nghymru	53	33	14
Dylid rhoi heibio'r syniad o 'addoli Duw' mewn addoliad yn yr ysgol	3	7	89

Tabl 4
Gweithgareddau i blant mewn eglwysi gyda gwahaniaeth mewn lefelau cyswllt ag ysgolion

Teip o weithgaredd	cyswllt %	heb gyswllt %	p<
Plant yn aelodau o gôr yr eglwys	16	4	.001
Clybiau ar ôl yr ysgol	20	6	.001
Clwb gwyliau	13	4	.001
Clwb rhiant a phlant bach	18	7	.001
Grwpiau mewn iwmiform	32	13	.001

Tabl 5
Ymgeiswyr ar gyfer conffirmasiwn yn yr eglwysi â gwahanol lefelau o gyswllt ag ysgolion cynradd

Teip o ymgeiswyr yn ôl oedran a rhyw	N ymgeiswyr mewn plwyfi cyswllt			N ymgeiswyr mewn plwyfi heb gyswllt			p<
	0 %	1-5 %	6+ %	0 %	1-5 %	6+ %	
Bechgyn cynradd	86	12	3	96	4	0	.05
Merched cynradd	80	17	3	94	6	1	.01
Bechgyn uwchradd	75	25	1	88	11	1	.01
Merched uwchradd	73	24	4	87	12	1	.01
Dynion	73	26	1	90	10	0	.001
Merched	67	32	2	85	15	1	.001

Tabl 6
Presenoldeb mewn gwasanaeth addoli yn ôl oedran

	cyswllt %	heb gyswllt %
Cyn-ysgol		
Dim	13	31
1-10	78	67
11-19	6	1
20 neu fwy	3	1
Ysgol gynradd		
Dim	6	27
1-10	69	62
11-19	16	8
20 neu fwy	10	2
Ysgol Uwchradd		
Dim	7	32
1-10	81	67
11 neu fwy	12	2
Oedolion		
50 neu lai	62	90
51-100	28	7
101 neu fwy	10	3

Yr ysgolion Cristnogol newydd a'u haelodau di-gred

Sylvia Baker

Yn ystod y deng mlynedd ar hugain i'r deugain diwethaf sefydlwyd rhwydwaith o tua 100 o ysgolion Cristnogol bychan annibynnol ym Mhrydain. Yn ddiweddar cafwyd hanes yr ysgolion hyn ar lefel boblogaidd (Baker a Freeman, 2005) ac yn ogystal cafwyd peth asesu arnynt eisoes ar lefel academiaidd (Francis 2005; Francis a Robbins, 2005; ap Siôn, Francis a Baker, 2007). Nawr mae project ymchwil llawer mwy ar y gweill, lle bwriedir archwilio'r ysgolion yn llawer mwy manwl. Un agwedd ar y project hwn yw gwneud arolwg eang ar gredoau, barn, agweddau a gwerthoedd disgyblion cyfredol yn eu harddegau sydd yn yr ysgolion. Beth yw eu credoau crefyddol? Beth yw eu gwerthoedd moesol? Beth yw eu barn ynglŷn â'r addysg anghyffredin maent yn ei dderbyn?

Ail agwedd ar y project yw olrhain hanes y bobl ifanc hyd at ddeunaw oed. Erbyn y cyfnod hwn bydd y mwyafrif ohonynt wedi treulio dwy flynedd naill ai mewn addysg bellach neu ym myd gwaith. Pa mor hawdd fu ymdopi â'r trawsnewid hwn? Sut mae eu credoau a'u gwerthoedd wedi newid ers iddynt adael eu hysgolion Cristnogol? Y drydedd agwedd i'w harchwilio yw hanes cyn ddisgyblion o'r ysgolion newydd Cristnogol sydd bellach rhwng ugain a deugain oed. Pa fath o ddinasyddion yw'r oedolion ifanc hyn? A ydynt yn gwneud cyfraniad gwerth chweil i gymdeithas? A fu eu haddysg anghyffredin o gymorth neu'n faen tramgwydd iddynt? A ydynt wedi glynu wrth y gred Cristnogol? Beth yw eu barn fel oedolion am yr addysg a gawsant?

Bydd yr erthygl hon yn taflu peth goleuni ar y canlyniadau cynnar o safbwynt amcan cyntaf y project hwn. Bydd yn agor â disgrifiad mwy manwl o gefndir yr ysgolion a'r hyn maent yn amcanu at ei gyflawni. Yna bydd yn canolbwyntio ar is-grŵp bychan ond arwyddocaol sef yr 11% o ddisgyblion yn eu harddegau sy'n honni nad oes ganddynt gred crefyddol.

Yr ysgolion Cristnogol newydd – beth ydynt?

Sefydlwyd yr ysgolion Cristnogol newydd gan grwpiau o rieni neu eglwysi fel ymateb i'r seciwlareiddio cynyddol ar addysg ym Mhrydain. Yn gyffredinol, nid cymunedau cyfoethog maent yn eu gwasanaethu ac nid oes gan eu cyrff o rieni ymrwymiad i addysg breifat fel y cyfryw. Mae'r rhieni yn aml yn teimlo eu bod wedi cael eu gorfodi i chwilio am addysg annibynnol fel bod eu plant yn derbyn addysg yn unol â chredoau Cristnogol y teulu. Mae'r rhieni'n aml yn aberthu llawer i gyflawni hyn ac ar yr wyneb gall yr ysgolion ymddangos fel sefydliadau digon tlodaidd heb feddu ar nifer o'r cyfleusterau a ddarperir gan ysgolion gwladol.

Y *raison d'être* am fodolaeth yr ysgolion yw darparu addysg drylwyr Gristnogol o fewn cyd-destun Cristnogol bwriadol. Yr amcan yw sicrhau fod pob rhan o fywyd yr ysgolion, gan gynnwys y cwricwlwm yn 'Grist ganolog' a bod yr holl athrawon yn Gristnogion mewn gair a gweithred. Mae'r ysgolion yn fychan iawn gyda'r niferoedd yn amrywio o ddyrnod o ddisgyblion i dros 200. Mae tua 50% o'r ysgolion yn rhan o rwydwaith Ymddiriedolaeth Ysgolion Cristnogol (CST – *Christian Schools Trusts*) a'r ysgolion hyn yw ffocws y project cyfredol. Ysgolion cynradd yw tua 50% o ysgolion y CST gyda'r gweddill yn cwmpasu'r ystod oedran cyfan rhwng pedair a 16 oed. Credir yn aml fod yr ysgolion â safonau uchel ac ethos o ofal am y disgyblion o fewn eu cymunedau. Oherwydd hyn, mae teuluoedd heb fod yn Gristnogol a theuluoedd â phlant ag anghenion arbennig yn eu dewis. Mae tua 25% o'r teuluoedd sy'n ymwneud â'r ysgolion yn eu disgrifio'u hunain fel pobl heb fod yn Gristnogion.

Y disgyblion presennol

Yn ystod haf 2006, cwblhaodd 695 disgybl cyfredol yn eu harddegau a dderbyniai eu haddysg yn yr ysgolion Cristnogol newydd holiadur manwl. O'r rhain, deuai 679 o 22

o'r 23 ysgol a chanddynt adrannau uwchradd â chyswllt ag Ymddiriedolaeth Ysgolion Cristnogol. Daeth gweddill yr 16 ymateb o ysgolion tebyg heb fod â chyswllt â'r Ymddiriedolaeth. Lleolwyd yr holl ysgolion y gwnaethpwyd arolwg ohonynt yn Lloegr a rhannwyd y disgyblion yn gyfartal rhwng Blynnyddoedd 9, 10 ac 11 ac roeddent rhwng 13 a 16 oed, 250 yn fechgyn a 216 o ferched. Yn yr holiadur gofynnwyd i ddisgyblion ddatgan eu crefydd; disgrifiodd 602 (87%) o'r bobl ifanc eu hunain fel Cristnogion tra dynododd 78 (11%) nad oeddent yn meddu ar unrhyw grefydd. Yma, yr 11% hyn a archwilir mewn dyfnder.

Y disgyblion 'heb grefydd'

Sut brofiad yw bod yn ddisgybl di-gred mewn cyd-destun mor grefyddol â'r ysgolion Cristnogol newydd? A yw'r cyd-destun yn elyniaethus iddynt yn ôl eu hamgyffred hwy? A ydynt yn anhapus? Sut mae eu barn a'u gwerthoedd hwy'n cymharu â rhai eu cymheiriaid o fewn yr ysgol? Cafwyd rhai atebion cychwynnol i'r cwestiynau hyn trwy gyfrwng yr holiadur manwl a ddefnyddiwyd yn yr arolwg a dylai'r atebion fod o werth i athrawon a rhieni fel ei gilydd. Dynoda canlyniad yr arolwg fod credoau plant heb grefydd yn wahanol iawn i rai'r mwyafrif o'u cymheiriaid. Mewn ffordd real iawn, maent yn cynrychioli is-ddiwylliant o fewn yr ysgol.

Dynododd oddeutu traean o'r disgyblion di-gred eu bod yn hanu o gartrefi Cristnogol; roedd y ffigwr hwnnw'n 85% parthed y disgyblion Cristnogol. Er gwaethaf y ffaith eu bod yn honni nad oedd ganddynt grefydd dynododd tua 25% o'r disgyblion dan sylw eu bod yn credu yn Nuw, yn Iesu Grist ac yn yr Ysbryd Glân. O safbwynt moesoldeb rhywiol 17% yn unig a gredai na ddylid cael perthynas rywiol y tu allan i briodas o'u cymharu â 70% o'r Cristnogion a chredai 45% fod erthyliad yn ddrwg o'u cymharu â 72% o'r Cristnogion. Roedd profiad y ddau grŵp o'r ysgol hefyd yn wahanol. Honnai 64% o'r rhai di-gred fod yr ysgol yn ddiflas o'u cymharu â 39% o'r Cristnogion. Tra bod y mwyafrif o bob grŵp yn honni eu bod yn

hapus yn yr ysgol, roedd gwahaniaeth arwyddocaol rhyngddynt serch hynny, gyda 62% o'r rhai di-gred yn dweud eu bod yn hapus yn yr ysgol o'u cymharu â 78% o'r Cristnogion. Roedd y disgyblion di-gred yn llawer llai tebygol o gredu fod eu hathrawon yn gwneud gwaith da (47%) o'u cymharu â'r Cristnogion (74%) neu i ystyried fod eu hysgol yn eu paratoi ar gyfer bywyd (47% i'w cymharu â 78%).

Yn eu cyd-destun cymdeithasol ehangach, roedd y ddau grŵp o bobl ifanc yn ymddangos fel pe baent yn byw bywyd cwbl wahanol i'w gilydd. 28% yn unig o'r rhai di-gred a oedd â grŵp o ffrindiau lle credai'r mwyafrif ohonynt fod crefydd yn bwysig o'u cymharu â 56% o'r Cristnogion. Mae'r bobl ifanc di-gred yn llawer mwy tebygol o fod â ffrindiau sy'n ysmygu, yfed a defnyddio cyffuriau na'r Cristnogion. Roedd y bobl ifanc Cristnogol ddwy waith, o'r bron, yn fwy tebygol na'r rhai di grefydd o gredu fod yr heddlu'n gwneud gwaith da (62% o'u cymharu â 36%). Cafwyd ymateb diddorol i'r eitem *mae siarad am fy mhroblemau gyda ffrindiau agos o help i mi*. Gallai 70% o Gristnogion ymateb yn gadarnhaol i hyn, o'u cymharu â 56% o'r bobl ifanc di grefydd.

Y gwahaniaethau: eu goblygiadau

Sut dylai rhieni ac athrawon ymateb i'r casgliadau a restrir uchod? A ddylai rhieni ystyried tynnu eu plant o'r ysgolion hyn a'u hanfon i ysgolion seciwlar? A ddylai'r athrawon ddechrau teimlo fod yma is-adran o'u disgyblion nad ydynt hwy, ar un ystyr, yn cwrdd â'u hanghenion? Mae data pellach ar gael a fydd o help i ateb y cwestiynau hyn. Archwiliodd Francis a Robbins (2005) greddoau a gwerthoedd pobl ifanc o Gymru a Lloegr a oedd yn tyfu i fyny mewn ardaloedd dinesig, mewn project y cyfeirir ato fel Urban Hope. Gwnaethpwyd yr arolwg ei hun yn y 1990au gyda 23,418 o bobl ifanc yn eu harddegau o Flynyddoedd 9 a 10 rhwng 13 a 15 oed. Deuai'r disgyblion o ystod eang o wahanol ysgolion gyda thua 10% yn derbyn eu haddysg mewn ysgolion annibynnol a'r mwyafrif llethol (tua 85%) o ysgolion gwladwriaethol anenwadol. Defnyddiodd

Data o'r ysgolion Cristnogol newydd o'u cymharu â data Urban Hope				
	Ysgolion Cristnogol Newydd		Data Urban Hope	
	Heb grefydd	Cristnogol	Heb grefydd	Cristnogol
	%	%	%	%
Rydw i'n credu fod yna bwrpas i'm bywyd	63	86	50	60
Rydw i'n credu fod bywyd yn werth ei fyw	51	78	68	71
Dydw i ddim yn teimlo fy mod i'n werth llawer fel person	26	13	14	13
Rydw i'n teimlo'n isel yn aml	42	23	51	54
Ar adegau rydw i wedi ystyried rhoi diwedd arnaf fy hun	30	17	28	26
Rydw i'n hapus yn yr ysgol	62	78	67	74
Rydw i'n aml yn dyheu am gael rhywun i droi atynt i ofyn cyngor	41	39	33	37

Francis a Robbins holiadur tebyg iawn i'r un a ddefnyddiwyd gyda'r ysgolion Cristnogol newydd. Tra bod hyn yn gyfrwng i gymharu i ryw raddau, rhaid bod yn ofalus wrth drafod y data. Mae deng mlynedd rhwng y ddau arolwg ac nid yw'r ystod oedran yn cyfateb yn union yn y ddau achos. Roedd y project Urban Hope yn ymwneud ag ysgolion o Gymru a Lloegr fel ei gilydd; cyfyngwyd y project ysgolion Cristnogol newydd i Loegr a chynhwysa ddisgyblion a oedd yn byw mewn ardaloedd gwledig yn ogystal â dinesig. Golyga'r gwahaniaethau hyn y gellir cymharu'r ddau grŵp o data ar lefel gyffredinol ond ni ddylid gwrthio'r gymhariaeth yn rhy bell.

Mae'r tabl yn cymharu ymatebion y ddau grŵp gwahanol o bobl ifanc i rai eitemau allweddol a gynhwyswyd yn y ddau holiadur. Mae'r eitemau'n cyfeirio at les cyffredinol y bobl ifanc.

Mae'r data'n dangos fod mwyafrif o bobl ifanc yn yr ysgolion Cristnogol newydd yn teimlo fod pwrpas i fywyd ond mae nifer sylweddol o'r disgyblion di grefydd yn anghytuno â hyn: 63% o'u cymharu â 86% o'r Cristnogion. Ar yr olwg gyntaf mae hyn fel pe bai'n awgrymu, mewn rhai achosion, eu bod yn coleddu agwedd fwy anobeithiol at fywyd. Fodd bynnag, mae cymhariaeth â data'r *Urban Hope* yn cynnig dehongliad gwahanol. O safbwynt yr arolwg hwn, tra bod y mwyafrif o'r disgyblion mewn ysgolion seciwlar anenwadol, dim ond 50%

o'r disgyblion di grefydd a allai ddweud fod pwrpas i fywyd o'u cymharu â 63% yn yr ysgolion Cristnogol newydd. Yn yr un modd roedd 42% o'r disgyblion di-gred yn yr ysgolion Cristnogol newydd yn cytuno â'r eitem *rydw i'n teimlo'n isel yn aml* o'u cymharu â 23% a oedd yn Gristnogion. Mae'r pryder y gall addysg mewn ysgol Gristnogol arwain at iselder i'r anghredadun yn ddi-sail yn ôl data *Urban Hope* sy'n dangos fod 51% o'r rhai sy'n ddi grefydd yn teimlo'n isel yn aml, yn ôl yr arolwg ehangach.

Wrth gymharu'r atebion o'r ddau grŵp gwahanol o data i'r eitemau *rydw i'n hapus yn yr ysgol* a *rydw i wedi ystyried rhoi diwedd arnaf fy hun* maent mor debyg fel nad oes unrhyw wahaniaethau arwyddocaol rhyngddynt a phobl ifanc yn eu harddegau sy'n ddi-gred. Mae'n debyg fod hyn hefyd yn wir am *rydw i'n aml yn dyheu am rywun droi atynt am gyngor*, er, yn yr achos hwn mae'n bosibl fod gwahaniaethau negyddol bychan i'w cael o fewn yr is-grŵp o'r di gred yn yr ysgolion Cristnogol newydd. Mae 51% o'r disgyblion di gred hyn yn dynodi fod bywyd yn werth ei fyw yn eu barn hwy. Tra bo hyn yn cynrychioli'r mwyafrif mae'n sylweddol is na'r 68% o'r rhai di-gred yng nghyd-destun ehangach yr ysgolion a all ddatgan hyn. Yn yr un modd dynoda 26% o'r disgyblion di gred yn yr ysgolion Cristnogol newydd nad ydynt yn teimlo eu bod o fawr werth fel person o'u cymharu â 14% o'u cymheiriaid yng nghyd-destun

ehangach yr ysgolion, sy'n wahaniaeth sylweddol.

Casgliad

Mae'r ysgolion Cristnogol newydd yn Lloegr yn cynnwys is-grŵp o ddisgyblion sy'n honni nad oes ganddynt gred grefyddol. Mae i'r grŵp hwn broffil gwerthoedd gwahanol iawn o'u cymharu â'u cymheiriaid Cristnogol yn yr ysgolion ac mae eu ffordd o fyw'n wahanol. Awgryma'r data fod aelodau'r is-grŵp yn llai tebygol o deimlo'n isel ac yn fwy tebygol o deimlo fod ystyr a phwrpas i fywyd na'u cymheiriaid yng nghyd-destun ehangach yr ysgolion. Nid ydynt yn fwy tebygol o fod wedi ystyried rhoi terfyn ar eu bywyd eu hunain ac maent yr un mor debygol o fod yn hapus yn yr ysgol â'r disgyblion sy'n mynychu mathau eraill o ysgolion. Mae angen i ysgolion Cristnogol newydd ystyried sut i ymdrin â'r teimlad a fynegwyd gan hanner yr is-grŵp, o'r bron, nad ydynt fawr werth fel pobl gan fod y ffigwr hwn yn sylweddol uwch na'r 14% mewn ysgolion dinesig sy'n dweud yr un peth. Fodd bynnag, rhaid cadw mewn cof wrth gymharu'r ddau grŵp na ellir eu cymharu'n uniongyrchol, ac felly, nid yw'r data ond yn awgrymu tueddiadau'n unig. Yr hyn sydd ei angen yn awr yw ymchwil pellach lle gellir cymharu'n uniongyrchol y disgyblion yn yr ysgolion Cristnogol newydd a grŵp sy'n cyfateb yn union mewn cyd-destun ehangach addysgol.



Disgyblion yn
Ysgol Christian
Trinity, Stalybridge

Cyfeiriadau

- ap Siôn, T., Francis, L.J., and Baker, S. (2007), Experiencing education in the new Christian schools in the United Kingdom: listening to the male graduates, *Journal of Beliefs and Values*, 28, 1-15.
- Baker, S. and Freeman, D. (2005), *The Love of God in the Classroom: the story of the new Christian schools*, Fearn, Christian Focus Publications.
- Francis, L.J. (2005), Independent Christian schools and pupil values: an empirical investigation among 13-15 year-old boys, *British Journal of Religious Education*, 27, (2), 127-41.
- Francis, L.J. and Robbins, M. (2005), *Urban Hope and Spiritual Health: the adolescent voice*, Peterborough, Epworth.

Mae Sylvia Baker yn ymwneud ag astudiaeth empeiriaidd ar ganlyniadau addysgu disgyblion mewn ysgolion Cristnogol ym Mhrydain. Hi oedd cyd-sefydlydd yr ysgolion Cristnogol newydd ym 1978.

Talcen caled? Darpariaeth ar gyfer AG yng nghyd-destun Ôl-16

Gavin Craigen

Mae'r mater o'r gwahanol ymatebion a geir gan uwch athrawon a rheolwyr y cwricwlwm i AG yng nghyd-destun disgyblion Ôl-16 wedi ennyn fy chwilfrydedd erioed, ynghyd â'r ystyriaethau hynny sydd fel pe baent yn dylanwadu ar eu penderfyniadau ynglŷn â'r cwestiwn a yw ysgol yn cwrdd â'r gofynion statudol ai peidio.

Y sefyllfa yn aml yw fod rhai pobl yn credu pobl fod ymdrin â'r gofynion statudol yn unig yn ddigonol ac nad oes angen trafod materion eraill. Yn anffodus, nid yw'r agwedd hon o reidrwydd yn arwain at y ddarpariaeth orau fel y gwelir yng nghyd-destun AG statudol ar gyfer disgyblion cyfnod allweddol 4. Yn ychwanegol mae ail adrodd y gofynion statudol yn aml yn arwain at ddarpariaeth ffwrdd-â-hi, profiad nad yw'n foddhaol nac yn un sy'n ysgogi disgyblion.

Manteision

Y mater y mae'n rhaid mynd i'r afael ag ef yw creu rhaglen AG a fydd o fantais i ddisgyblion, wedi ei chynllunio'n briodol ar gyfer disgyblion Ôl-16. Pe bai darparwyr a rheolwyr y cwricwlwm yn ymdrin â hyn o ddifrif ac yn broffesiynol, credaf y byddent yn sicrhau fod eu hysgol yn cwrdd â gofynion statudol, nid yn unig trwy 'dicio'r blychau cywir' neu barhau â'r syndrom o 'osgoi uchafswm o raddfa 3 ar gyfer Cwestiwn Allweddol 3!' Yn hytrach, byddant yn awyddus i ddarparu rhaglen y mae gan eu disgyblion hawl iddi ynghyd â llunio rhaglen sy'n gwneud cyfraniad positif a deinamig i ddatblygiad personol, llwyddiant academaidd ac ymwybyddiaeth cymdeithasol a byd eang.

Pan fo rhaglen Addysg Grefyddol Ôl-16 o ansawdd uchel ar waith gydag adnoddau a staff digonol i'w throsglwyddo, ynghyd â chefnogaeth gwricwlaidd, gellir mesur y manteision sy'n deillio ohoni. Ceir manteision enfawr yn nhermau swyddi i ddisgyblion yn y dyfodol – ymwybyddiaeth, gwybodaeth a sgiliau a fydd o gymorth sylweddol iddynt mewn gweithleoedd mewn cymdeithas aml-ddiwylliannol ac

amrywiol Prydain heddiw. Bydd myfyrwyr ar eu hennill yn ddirfawr o safbwynt datblygiad cymdeithasol – meddwl, dealltwriaeth ac agweddau a fydd yn hybu ymrwymiad i'w cymdeithas a bod yn aelodau positif ohoni. Mae mynd i'r afael â materion a gwerthoedd, gwerthuso credoau, dysgeidiaeth ac arferion pobl heddiw yn sicr o roi sylfaen a chanllawiau i ddatblygiad personol myfyrwyr, yn unol ag amcanion a phwrpas addysg fel y nodir hwy yn y Deddfau Addysg¹. Ac o ystyried y pwyslais a roddir heddiw ar addysg ar gyfer dinasyddiaeth fyd eang, nid oes unrhyw amheuaeth yn fy meddwl na fyddai rhaglen gyffredinol dda mewn AG yn y chweched dosbarth yn cyfoethogi a datblygu'r hyn a gyflwynwyd yn y maes hwn ar gyfer camau allweddol cynharach.

Ymddengys mai gwireb yw dweud fod pawb ohonom yn awyddus i fyw mewn cymdeithas lle mae ein pobl ifanc yn datblygu fel dysgwyr effeithlon sy'n:

- dadansoddi eu gwerthoedd ac yn ennill sgiliau y gellir eu trosglwyddo i feysydd eraill;
- tyfu'n ddinasyddion sy'n eu deall eu hunain ac yn deall y sawl sydd o'u cwmpas;
- parchu a gwerthu amrywiaeth i'r graddau eu bod yn gwerthfawrogi ac yn awyddus i weithio i sicrhau cydlynid o fewn y gymdeithas;
- aelodau cyfrifol o gymdeithas a fydd yn gallu dirnad y materion sy'n wynebu cymunedau a sylweddoli beth yw rhai o'r agweddau moesol y dylid mynd i'r afael â hwy;
- aeddfedu ac yn barod i ofyn cwestiynau ystyrllon ynglŷn â'r hyn sy'n bwysig a gwerthfawr mewn bywyd ac yn gallu herio'r ffordd rydym yn arfer edrych ar bethau a rhoi ystyriaeth i gyfraniad yr ysbrydol.

Fodd bynnag nid yw'r dyheadau amlwg hyn yn aml yn peri i uwch athrawon ddod i'r casgliad fod rhaglen AG dda'n cyfateb yn berffaith i'r holl ddyheadau hyn. Mae'r pethau hynny yr ydym yn eu disgwyl i

ddisgyblion fod, neu ddod i fod – pob un o'r agweddau uchod – yn rhan o hanfod o'r hyn ydyw meddwl, deall a sgiliau mewn AG. Fel mae myfyrwyr yn mynd i'r afael â chwestiynau sylfaenol, archwilio credoau, dysgeidiaethau ac arferion, a rhoi mynegiant i ymatebion personol, byddant yn datblygu'r sgiliau o feddwl yn feirniadol a dealltwriaeth sy'n berthnasol a phell-gyrhaeddol ar gyfer bywyd fel oedolion.

Canlyniadau

Ymddengys fod ymateb disgyblion i AG dda'n amlwg – maent yn ei mwynhau am ei bod yn rhoi cyfle iddynt ac, yn wir, yn eu hannog i drafod, meddwl, dadlau, ffurfio barn, gwerthuso a fyfrio ar ystod eang o faterion a rhoi ystyriaeth i wahanol safbwyntiau a phersbectifau. Mae nifer o ddisgyblion yn gweld ac yn gwerthfawrogi'r ffaith fod eu rhaglen AG yn eu paratoi ar gyfer bod yn oedolion; mae'n rhoi dulliau iddynt i ystyried ac ymateb i faterion sylfaenol a dewisiadau pwysig y mae'n rhaid i bawb ohonom eu gwneud. Mae AG hefyd yn eu helpu i ymdopi â'r problemau sy'n rhan anochel o fywyd – salwch, marwolaeth a cholledion, dioddefaint, diweithdra – a'u galluogi i ffurfio barn ar faterion moesol yn ogystal â phwyso a mesur rôl ysbrydolrwydd. Maent yn gwybod beth yw arwyddocâd hyn oll o safbwynt eu datblygiad personol, eu lles a'u hunaniaeth hwy eu hunain.

Bu llawer o drafod yn Lloegr, ac yng Nghymru hefyd ynglŷn â phwysigrwydd cydlynad cymunedol, datblygu ffyrdd o werthfawrogi amrywiaeth a hyrwyddo ennyn parch at wahaniaethau; serch hynny, ymddengys mai ychydig sydd wedi ystyried mai hwy yw'r union faterion sy'n sylfaen i ddysgu ac addysgu AG dda. Y pwnc hwn yw'r un sydd â mwyaf i'w gyfrannu i'r drafodaeth ar y materion hyn ac ef hefyd yw'r pwnc y rhoddir y sylw lleiaf iddo. Mae'n amlwg i unrhyw un sy'n gyfarwydd ag AG ei fod yn bwnc ac iddo botensial enfawr fel canllaw i bobl ifanc ac oedolion ifanc sydd ar eu prifant, i ymdrin â materion sy'n codi yn ei gweithleoedd, y

cymunedau neu'r cymdogaethau y byddant yn rhan ohonynt.

Yn ogystal, mae rhaglenni AG da'n helpu i fynd i'r afael â materion sydd ynghlwm wrth eithafiaeth a gwahaniaethu ar sail crefydd. Mae'n hyrwyddo'r amcan o ennyn parch at eraill ac at yr hunan, yn cyfrannu at, a deall hanes a diwylliant, datblygu lles personol a hapusrwydd a chyfrannu at ddiogelu safonau moesol mewn busnes a bywyd cyhoeddus.

Fodd bynnag, nid yw'r canlyniadau cyfarwydd a chydabyddedig hyn, fe ymddengys, yn arwain at y casgliad fod darpariaeth AG yn werth chweil.

Agweddau

Mae cael eu hamddifadu o'r cyfle a'r profiad i ymdrin ag agwedd mor werthfawr ar addysg ar unrhyw lefel yn golled wirioneddol – eu hamddifadu, nid yn unig o'u hawliau statudol ond o un o'r prif anghenion a fydd yn arwain at fyw bywyd cyflawn. Ond bydd cael eu hamddifadu o'r profiad o AG rymus a heriol yng nghyd-destun Ôl-16 yn golled fwy hyd yn oed gan fod yr union faterion ac agweddau ar y pwnc yn bethau y mae dysgwyr o'r oedran hwn â chyfarpar a gallu arbennig i ymdrin â hwy.

Ymddengys fod gormod o uwch athrawon a rheolwyr yn credu mai'r un yw'r ddarpariaeth mewn AG a'r hyn a brofwyd ganddynt hwy ugain mlynedd neu ddeng mlynedd ar hugain yn ôl; mae AG wedi newid llawer dros y blynnyddoedd ac erbyn hyn mae'n bwnc pwysicach nag y mae nifer o bobl yn barod i'w gydnabod.

Mae'n bwnc perthnasol i faterion cyfoes, ac yn bwnc ag iddo gyswllt â nifer o feysydd eraill o astudiaeth – llên Saesneg, arlunio, cerdd, hanes, gwleidyddiaeth, materion cymdeithasol a diwylliannol, dinasyddiaeth fyd eang ac economeg, a llawer mwy.

Nid yw'n bosibl byw heb gyswllt â materion sy'n ymwneud â ffydd a chred, ac ni ellir dechrau deall dynoliaeth heb feddu ar beth dealltwriaeth o'r pwnc. Mae materion sy'n ymwneud â chrefydd a chred yn effeithio ar fywydau pawb ohonom – y

gorffennol, y presennol, a'r dyfodol hefyd yn ddiau.

Serch hynny, ymddengys fod yr agweddau a goleddir mewn sawl ysgol uwchradd yn ymddangos yn gwbl wahanol i'r safbwynt a amlinellir uchod.

Amserlennu

Un o'r problemau mwyaf i ysgolion yw amserlennu a staffio'r pwnc yng nghyd-destun Ôl-16. Mae'r gost o ddarparu rhaglen addas AG i bob disgybl yn y chweched dosbarth – yn unol â'r gofynion cyfreithiol – yn sylweddol yn ogystal â neilltuo amser ar amserlen sydd eisoes yn llawn, yn broblem enfawr i reolwyr cwricwlwm yr ysgol. Cydnabyddir y problemau hyn – ond pa mor real ydynt?

Bu CYSAGau Cymru yn holi ELWa (yr adran o Lywodraeth Cynulliad Cymru a oedd yn gyfrifol ar y pryd), ynglŷn â'r gost. Cadarnhaodd ELWa fod y gost ar gyfer gofynion statudol wedi ei chynnwys yn y fformiwlâ ar gyfer cyllido. Serch hynny, byddai rhai ysgolion yn parhau i ddadlau na allant ariannu'r elfen bwysig a statudol hon mewn addysg.

Ymddengys fod y mwyafrif llethol o ysgolion ffydd yn llwyddo i gynnwys AG yn eu hamserlenni yn ogystal â holl ofynion y cwricwlwm cenedlaethol. Os ydynt hwy'n llwyddo, pam na all ysgolion eraill wneud hynny? Rhaid gofyn ai mater o amserlennu neu gyllido yw'r broblem sylfaenol yma, mewn gwirionedd – yn hytrach nag agwedd meddwl tuag at y pwnc?

Yn ychwanegol, mae'r modelau y gellir eu trosglwyddo'n niferus ac amrywiol. Noda Dogfen Ganllawiau APADAGOS ar gyfer AG 14-19 tua 14 o wahanol bosibiliadau – cyfuniadau a fyddai'n galluogi ysgolion i gwrdd â gofynion statudol yn hawdd ond a fyddai hefyd yn darparu AG a fydd yn cyflawni'r amcanion a manteision a drafodwyd uchod:

- cyrsiau arholiad (cwrs byr TGAU neu gwrs byr pellach neu gwrs llawn);
- gwersi a gynhwysir yn yr amserlen ar gyfer y chweched dosbarth;

- wythnosau trawsgwricwlaidd;
- rhaglenni cyfoethogi trawsgwricwlaidd;
- rhaglenni cyfoethogi trawsgwricwlaidd ehangach;
- sesiynau tiwtorial wedi eu hamserlennu dysgu creiddiol;
- cynadleddau undydd blynyddol (bob tymor);
- cynadleddau undydd i hybu gwaith TGAU neu Lefel A;
- Cymhwyster Bagloriaeth Cymru;
- darparu ar gyfer Sgiliau Allweddol;
- gwobrau ASDAN;
- enciliadau a chynadleddau;
- gwaith elusennol ac ymweliadau;
- defnyddio e-clips y BBC ar gyfer AG.

Gyda rhestr o fodelau mor amrywiol ac eang ar gael, gallai pob ysgol ddod o hyd i batrwm sy'n addas i'w sefyllfa a'u hamserlen hwy – os yw'r ewylllys i wneud hynny ar gael.

Mae'r adnoddau i gyflwyno nifer o'r modelau hyn ar gael ac nid yw ysgolion ac athrawon wedi eu gadael i ddyfeisio'u hadnoddau eu hunain, fel yn y gorffennol, yn aml. Rhaid talu am yr adnoddau hyn, wrth reswm, ond gall athrawon gynllunio ar gyfer y gost o'u cyllideb fel y byddent yn ei wneud gydag unrhyw fenter newydd arall neu ofynion statudol. Yn ddiweddar, darparodd CYSAGau Cymru ffolder ddi dâl o *RE Today*, *Spiritual Engagement* a chyfieithwyd y cyfan ohoni gan gynnwys y deunyddiau *PowerPoint* a'r deunyddiau ysgogol sydd ar y CD – i'r Gymraeg fel bod gan pob ysgol gyda myfyrwyr Ôl-16 a phob coleg Addysg Bellach yng Nghymru gopi ohoni.

Casgliadau

Pwy, felly, sy'n wynebu'r talcen caled?

Penaethiaid:

- oherwydd y gost o ddarparu rhaglen ddigonol?
- oherwydd anawsterau amserlennu?
- oherwydd eu hagwedd neu'r hyn maent yn ei feddwl o AG?



Mae Jane Hutt AM (canol) yn dangos y ddogfen APADGOS newydd ar gyfer AG i oed 14 i 19.

Rheolwyr y cwricwlwm:

- oherwydd y pwysau o safbwynt amser a staffio?
- oherwydd eu hagwedd neu'r hyn maent yn ei feddwl o AG?

Disgyblion:

- oherwydd na roddir iddynt yr hyn mae arnynt ei angen ac y dylant ei dderbyn?

Daeth yn amser pwysu a mesur, a phenderfynu a ydym yn wir yn cydnabod beth yw pwrpas, manteision a chanlyniadau addysgu AG; sylweddoli'r potensial y manteision i'n myfyrwyr, ein cymdeithas a'r cenedlaethau sydd i ddod; bod yn fentrus wrth gynllunio, ariannu adnoddau a rhoi mewn grym AG dda i bob myfyriwr sy'n derbyn addysg Ôl-16.

Os na wnawn hyn, bydd talcen caled y dyfodol yn ein pwysu ninnau a'n cael yn brin.

¹ Dylai'r cwricwlwm cyfan mewn ysgolion: '(a) hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, meddyliol a chorfforol disgyblion yn yr ysgol a'r gymdeithas; (b) paratoi'r disgyblion hynny ar gyfer cyfleoedd, cyfrifoldebau a phrofiadau bywyd oedolion.'

Mae Gavin Craigen yn Arolygwr / Ymgynghorydd a Swyddog CYSAGau Awdurdodau Addysg Lleol Conwy, Sir Ddinbych a Sir Fflint. Yn ddiweddar fe'i penodwyd gan CBAC yn Brif Arholwr o safbwynt asesu athrawon CA3.

Cefnogi addysg grefyddol yn Llyfrgell Deiniol Sant

Tania ap Siôn

Aeth bron i flwyddyn heibio er pan sefydlwyd Canolfan y Santes Fair ar gyfer addysg grefyddol trwy gyfrwng partneriaeth ddeinamig rhwng y Llyfrgell ac Ymddiriedolaeth Coleg y Santes Fair. Mae Tania ap Siôn yn trafod rhai o lwyddiannau'r Ganolfan yn ystod ei deg mis cyntaf.

Pwrpas Canolfan y Santes Fair yw hybu rhagoriaeth mewn addysg grefyddol yng Nghymru a chynrychioli Cymru ym Mhrydain ac yn rhyngwladol. Mae hyn yn cael ei gyflawni trwy gyfrwng tri phrif faes: ymchwil, datblygu'r cwricwlwm a pharhad datblygiad proffesiynol gyda chysiau achrededig i'r rhai sy'n addysgu mewn ysgolion ac eglwysi.

Datblygu adnoddau newydd

Wrth ddatblygu'r cwricwlwm addysg grefyddol canolbwyntiwyd ar ddau brif broiect yng Nghanolfan y Santes Fair eleni: *Cyfes Crefyddau'r Byd Heddiw* i ddisgyblion cyfnod allweddol 2 a dwy gyfres o lyfrau stori newydd i ddisgyblion Cyfnod Sylfaen: *Storïau i'w Cofio a Mannau Addoli*.

Cyfes Crefyddau'r Byd Heddiw

Mae Leslie J Francis a Tania ap Siôn yn cwblhau'r rhan olaf o'r gyfres *Crefyddau'r Byd Heddiw*, cyfres ddwyieithog ar gyfer cyfnod allweddol 2, wedi ei noddi gan APADAGOS. Hwylfu'n gweinyddu'r project yn ogystal ag ysgrifennu'r llyfrau sef saith llyfr stori a llawlyfr i athrawon sy'n cyflwyno'r disgybl i'r ffordd mae ffydd yn dylanwadu ar arferion o safbwynt saith traddodiad crefyddol yng Nghymru a'r byd ehangach. Cyhoeddwyd y llyfrau stori y llynedd.

Ym mis Chwefror 2009 cyhoeddwyd y fersiwn Saesneg o'r Llawlyfr athrawon cynhwysfawr sy'n ategu'r llyfrau stori. Bydd y fersiwn Gymraeg ar gael yn ystod yr haf eleni. Mae'r Llawlyfr yn cynnwys gwybodaeth i athrawon, gweithgareddau a thafleuni gwaith y gellir eu llungopio i ategu'r *Fframwaith enghreifftiol cenedlaethol ar gyfer cyflwyno addysg grefyddol i ddysgwyr rhwng 3 a 19 oed yng Nghymru*.

Mae'r gyfres ar gael gan Gyngor Llyfrau Cymru (<http://www.gwales.com>).

Storïau i'w Cofio a Mannau Addoli

Mae Canolfan y Santes Fair mewn cydweithrediad â'r *Religious and Moral Education Press* (RMEP) wedi bod yn gweithio ar y fersiynau Gymraeg o ddwy gyfres o storïau newydd ar gyfer disgyblion y Cyfnod Sylfaen. Mae pob cyfres yn cynnwys chwe teitl mewn fformat Llyfr Mawr a fformat llyfrau disgyblion fel ei gilydd. Mae'r llyfrau'n cyflwyno agweddau ar chwech o brif grefyddau'r byd sy'n cael eu harddel ym Mhrydain ac mae'n adnodd gwerthfawr i ategu'r Cyfnod Sylfaen mewn AG yng Nghymru (yn benodol, i blant rhwng 5 a 7 oed).


Yn y gyfres *Storïau i'w Cofio* mae dau deitl ar gael nawr yn y gyfres o chwech yn y Gymraeg a Saesneg:

- Mae'r *Helpa Ryfeddol o Bysgod* yn cyflwyno tair stori o'r Beibl sy'n adlewyrchu tair prif thema mewn Cristnogaeth: *Helpa Ryfeddol o Bysgod*; *Y Dyn Bach yn y Goeden* a *Penblwydd yr Eglwys*;
- Mae'r *Bachgen â Sêr yn ei Geg* yn cyflwyno tair stori o'r traddodiad Hindŵaidd sy'n adlewyrchu themâu allweddol o'r grefydd hon: *Y Bachgen â Sêr yn ei Geg*, *Y Duw Pen Eliffant a'r Y Mwnci-gadfridog*.

Yn y gyfres *Mannau Addoli* mae dau o'r chwe llyfr yn y gyfres ar gael erbyn hyn yn Gymraeg a'r Saesneg:

- Mae *Gartref ac yn yr Eglwys* yn archwilio addoliad Cristnogol mewn eglwys Anglicanaidd a chapel y Bedyddwyr trwy lygaid dau blentyn Cristnogol, Tom a Megan;
- Mae *Gartref ac yn y Synagog* yn archwilio addoliad Iddewig mewn synagog Uniongred a Synagog Ddiwygiedig trwy lygaid dau blentyn Iddewig, Rachel a Dafydd.

Bydd y teitlau eraill yn y ddwy gyfres ar gael yn ddiweddarach eleni.



Mae gwybodaeth bellach ar gael ar wefan Canolfan y Santes Fair dan y teitl datblygu'r cwricwlwm: www.st-marys-centre.org yn ogystal â gwefan RMEP: www.rmep.co.uk

Dau deitl o'r cyfresi newydd Mannau Addoli a Storiâu i'w Cofio.

Cydaddoli arlein

Mewn cydweithrediad â'r SPCK, Canolfan y Santes Fair sy'n gweinyddu'r fersiwn Gymraeg o wefan gwasanaethau addoli di dâl i ysgolion cynradd ac uwchradd. Bydd y gwasanaethau'n cael eu diweddarau'n fisol (<http://www.assemblies.org.uk/cymru/>)

Mae poblogrwydd y gwasanaethau Cymraeg yn amlwg gan fod yr ystadegau diweddaraf yn dangos fod oddeutu 26,000 bob mis wedi archwilio'r adran hon o'r wefan yn unig yn ystod 2008.

Cylchgrawn dwyieithog ar gyfer AG

AGweddau yw'r cylchgrawn newydd arlein ar gyfer AG sy'n ymddangos ddwywaith y flwyddyn. Bydd AGweddau'n cyhoeddi erthyglau mwy sylweddol sy'n berthnasol i bobl broffesiynol ym maes addysg grefyddol gan ganolbwyntio ar ddatblygu'r cwricwlwm, crefydd a diwylliant, ac adnoddau. I gydfynd â'r cylchgrawn cyhoeddir cylchlythyr mwy rheolaidd arlein, *Bwletin AG* sy'n canolbwyntio ar ddarparu eitemau byr o newyddion fel maent yn digwydd.

Mae'r cylchgrawn, AGweddau a'r cylchlythyr yn ddi dâl ac mae'n bosibl gwneud cais ar wefan Canolfan y Santes Fair i dderbyn e-byst â linc gyda'r cyhoeddiadau fel y maent yn ymddangos (www.st-marys-centre.co.uk neu cymraeg.st-marys-centre.co.uk).

Ymchwil mewn addysg grefyddol

Yng Nghanolfan y Santes Fair yr egwyddor sylfaenol yw sicrhau ymchwil o ansawdd uchel sy'n ffurfio arfer da ar sail gwybodaeth. Mae aelodau craidd y staff ac ymchwilwyr fel ei gilydd yn gweithio ym maes diwinyddiaeth ymarferol gan gynhyrchu cyhoeddiadau wedi eu hadolygu gan gyd-ymchwilwyr a chyflwyno papurau

mewn cynadleddau.

Canolfan y Santes Fair hefyd yw cydgysylltydd Cymru o safbwynt projectau Prydeinig a rhyngwladol, er enghraifft, *Arolwg Gwerthoedd Pobl Ifanc* ac *Arolwg Ffydd a Hiwmor*.

Arolwg Gwerthoedd Pobl Ifanc

Arolwg yw hwn sy'n ail-adrodd a datblygu arolwg o 34,000 o ddisgyblion o'r bron, ym Mlyneddodd 9 a 10 trwy Gymru a Lloegr yn niwedd y 1990au. Y llyfr diweddaraf a ddeilliodd o'r arolwg hwnnw yw *Urban Hope and Spiritual Health* gan Leslie J Francis a Mandy Robbins. Bydd yr ail arolwg o werthoedd pobl ifanc yn diweddarau'r wybodaeth ac yn mapio tueddiadau cyfredol.

Cynhyrchodd yr arolwg hwnnw lawer o wybodaeth werthfawr i ysgolion, rhieni, y rhai sy'n llunio polisïau a phawb sy'n ymwneud â lles pobl ifanc.

Mae nifer o ysgolion Cymru eisoes wedi cymryd rhan yn yr arolwg a gwahoddir ysgolion eraill i wneud hynny.

Arolwg Ffydd a Hiwmor

Mae Canolfan y Santes Fair yn cyd weithio â'r Athro Willibald Ruch o'r Swistir mewn astudiaeth ryngwladol o'r berthynas rhwng crefydd a hiwmor ymhlith myfyrwyr Ôl-16.

Unwaith eto, mae nifer o ysgolion a cholegau chweched dosbarth yng Nghymru wedi cymryd rhan yn yr arolwg a pharheir i wahodd eraill i gymryd rhan ynddo.

Parhad Datblygiad Proffesiynol

Mae Canolfan y Santes Fair yn cynnig rhaglenni MA ar gyfer Parhad Datblygiad Proffesiynol athrawon, addysgwyr Cristnogol a chlerigwyr ym meysydd diwinyddiaeth wledig, addysg grefyddol, astudiaethau ysgolion eglwysig a chrefydd ymhlyg mewn cyd weithrediad â Phrifysgol Efrog St John, y corff dilysu.

Cyflwynir y cyrsiau trwy gyfrwng y dull dysgu-o-bell gyda chysiau preswyl byr yn Llyfrgell St Deiniol, lle caiff myfyrwyr gyfle i rannu eu gwaith a derbyn adborth a

chefnogaeth gan eu tiwtoriaid a'u cydfyfyrwyr.

Mae i'r cyrsiau MA ddwy nodwedd benodol: mae'r tiwtoriaid yn cael eu cydnabod yn rhyngwladol fel arbenigwyr yn eu maes ac mae'r gwaith a gyflwynir i'w asesu wedi ei sylfaenu ar feysydd diddordeb y myfyrwyr eu hunain o fewn cyd destun eu gwaith bob dydd.

Nid oes rhaid i fyfyrwyr ddilyn y cwrs cyfan os nad ennill MA yw eu hamcan. Gallant ddod â'u hastudiaeth i ben, wrth gwrs, ar ôl cyrraedd lefel Tystysgrif a Diploma.

Rhwydwaith ar gyfer Teip Seicolegol a'r Ffydd Gristnogol

Mae'r Rhwydwaith ar gyfer Teip Seicolegol a'r Ffydd Gristnogol wedi ei lleoli yng Nghanolfan y Santes Fair. Daw'r Rhwydwaith â'r sawl sy'n ymarfer *MBTI* ac ymchwilwyr sy'n ymddiddori mewn astudio'r berthynas rhwng teip seicolegol a'r ffydd Gristnogol at ei gilydd. Mae hyn yn adlewyrchu diddordeb y Ganolfan mewn hybu deialog greadigol a deallus rhwng ymchwil ac ymarfer.

Sylwadau clo

Sefydlwyd Canolfan y Santes Fair trwy gyfrwng partneriaeth rhwng Llyfrgell Deiniol Sant ac Ymddiriedolaeth y Santes Fair a thrwy hynny, galluogwyd y ddwy ymddiriedolaeth i gyflawni eu hamcanion neu eu 'cenhadaeth' yn llawnach. Hefyd, fel y dengys yr enghreifftiau o waith Canolfan y Santes Fair mae persbectif sy'n ehangu ei gorwelion ac yn cydweithio mewn partneriaeth ag eraill yn meddu'r siawns orau bosibl o lwyddo yn eu hamcanion.

Wrth fwrw golwg ar y gwaith mae Canolfan y Santes Fair wedi cyflawni llawer yn ei deg mis cyntaf a bellach, gan fod y sylfeini wedi eu gosod yn eu lle, mae'r Ganolfan yn barod i adeiladu arni.

I dderbyn rhagor o wybodaeth am Ganolfan y Santes Fair ewch i www.st-marys-centre.co.uk (Saesneg) or cymraeg.st-marys-centre.co.uk (Cymraeg).



PROFFIL: LLYFRGELL DEINIOL SANT

Llyfrgell Deiniol Sant, Penarlâg, yw'r gofeb genedlaethol i William Gladstone, Prif Weinidog Prydain bedair gwaith, a sefydlodd y Llyfrgell ym 1894 ar gyfer 'the pursuit of Divine learning'. Hi yw'r unig Lyfrgell Brif Weinidogaethol, ac mae iddi safle unigryw fel Llyfrgell breswyl gyda chyfleusterau rhagorol ar gyfer cynadleddau ynghyd â chyfleusterau bwytia.

Er ei fod yn Gristion ymroddedig, nid oedd Gladstone am i'r Llyfrgell fod yn gyfyngedig ond yn 'un sy'n croesawu pob enwad Cristnogol; nid yn unig enwadau Cristnogol ond pob crefydd, nid yn unig pob crefydd, ond pobl sy'n coleddu unrhyw ideoleg.'

Trwy gydol 2009, mae Llyfrgell Deiniol Sant yn dathlu deucanmlwyddiant geni Gladstone trwy gyfrwng rhaglen o ddiwyddiadau arbennig a lansio Ymgyrch

Gladstone 200. Prif amcan ymgyrch Gladstone 200 yw codi £1.25 miliwn i:

- adeiladu Ystafell Ddarllen newydd yn canolbwyntio ar Astudiaethau Islamaidd;
- adeiladu Canolfan Adnoddau ar gyfer Addysg Grefyddol ac Ymchwil;
- gwella ac ychwanegu at y Casgliad Islamaidd mae'r Llyfrgell eisoes yn berchen arno ynghyd â deunydd addysg grefyddol.

Cydnabyddir Llyfrgell Deiniol Sant yn rhwngwladol fel canolfan ragoriaeth i hyrwyddo ymchwil ac ysgolheictod mewn diwinyddiaeth ac addysg grefyddol.

Am ragor o wybodaeth am Lyfrgell Deiniol Sant ewch i

<http://www.st-deiniols.com>

(Ail) Greu Iesu

Aled Jones-Williams

Pan aethpwyd â drama Aled Jones-Williams, Iesu! a dderbyniodd ganmoliaeth hael gan y beirniaid, ar daith trwy Gymru y llynedd, achosodd gryn gynnwrf ymhlith rhai cymunedau crefyddol. Nawr, mae'r dramodydd, bardd, llenor ac offeiriad yn myfyrio ar yr hyn a'i cymhellodd i ysgrifennu'r ddrama.

Proses anodd iawn oedd ysgrifennu *Iesu!* Medrai'r ddrama'n hawdd syrthio rhwng dwy stôl: rhwng y bobl oedd yn gwybod yn iawn – neu yn meddwl eu bod nhw'n gwybod yn iawn – pwy oedd Iesu, a'r bobl oedd bellach wedi cilio mor bell oddi wrth grefydd fel y byddai drama ag iddi thema grefyddol yn peri iddynt wfftio.

Penderfynais ddefnyddio geiriau'r Efengylau ond eu lleoli yn wahanol yn y stori – ac onid dyna beth mae'r Efengylau gwreiddiol wedi ei wneud beth bynnag, defnyddio dameg neu ymadrodd er mwyn peintio llun arbennig o Iesu? Felly, mae portread Mathew ohono yn hollol wahanol i bortread Luc er i'r ddau ddefnyddio'r un deunydd. I sawl un bywgraffiadau yw'r Efengylau – fel hyn roedd hi! Ond portreadau yw pob un a diwinyddiaethau – roedd gan y pedwar Efengyllydd safbwynt a chymunedau mewn golwg wrth ysgrifennu. Roedd i'r ysgrifennu felly fwriad gwleidyddol.

Ond roedd rhywbeth arall – drama oeddwn i am ysgrifennu – a hanfod drama ydy siarad, llefaru, ynganu—roeddwn i am glywed Iesu. A rhywun i'w glywed oedd yr Iesu gwreiddiol nid i'w ddarllen. Nid geiriau statig mewn memrwn neu lyfr oedd ei eiriau ond sŵn yn llawn poer ac angerdd. O Iesu mae 'r eglwys wedi creu Ysgrhythur – rhywbeth awdurdodol, wedi ei awdurdodi (gan ddynion yn bennaf!) a rhywbeth hollol wleidyddol er mwyn magu a hybu grym. Mae sawl cymhelliad wrth greu Ysgrhythur – rhai da a rhai digon amheus. Felly, roeddwn i eisiau dadgrefyddu Iesu a'i ddadysgrythyru o.

Arbrawf theatrig oedd *Iesu!* i ffendio Iesu yr oeddwn i wedi ymwneud ag o ar hyd fy oes. A dyna sut rydwi yn meddwl: drwy gyfrwng theatr – rhoi rhywun ar lwyfan wag

a'u gadael nhw i chwilio am ffordd tuag at rywbeth. Buan iawn y trôdd Iesu yn wraig – nid gimic oedd hynny – fel na ddigwyddodd y peth – yn sydyn ac anfwriadol. Hwyrach mai fy 'seici' i benderfynodd ar hynny oherwydd y byddai symud Iesu o'r gwrywaidd i'r benywaidd yn galluogi'r broses o greu. Bwriad seicolegol er fy mwyn i fy hun oedd y *shift* yna o ŵr i fenyw. Yn ddiweddarach y sylweddolais i hefyd y byddai hyn, wrth gwrs yn tanseilio bwgan mawr crefydd yn y byd Gorllewinol, sef, gormes patriarchaeth.

Daeth pethau eraill i'r fei yn bennaf darllen rhwng ac o dan y testun. Pan mae Iesu yn holi 'Pwy mae dynion yn ei ddywedyd fy mod i?' – pa fath o gwestiwn ydy hwnna? Cwestiwn am hunaniaeth (*identity*) ydy o. Cwestiwn yr oedd hi yn ei ofyn o hyd ac o hyd efallai? Y cwestiwn mawr dynol: pwy ydwi? Be' am rywioldeb Iesu? Mae'r digwyddiad hefo'r wraig yn arllwys persawr ar ei draed a sychu ei draed a'i gwallt yn weithred hollol synhwyrus. Ar y foment honno be oedd yn digwydd i Iesu fel bod rhywiol?

Wedyn Jiwdas. Erioed teimlais i Jiwdas gael *raw deal* – be' oedd ei gymhelliad yn bradychu? Yn y testun gwreiddiol mae 'na rywbeth am Jiwdas a phres – yn aml pan grybwyllir o mae'n cael ei gysylltu ag arian, er enghraifft, Jiwdas oedd ceidwad y pwrs. Felly, roeddwn i am ddarllen o dan y testun er mwyn creu stori amgen i Jiwdas.

Buan y sylweddolais hefyd fy mod yn rhan o rywbeth mwy – sef, trywydd yn y byd theatr i edrych ar grefydd ôl-9/11 – roedd drama fel *Paul*, Howard Brenton; *Jesus: The Guantanamo Years*, Abie Philbin Bowman; *The Last Days of Judas Iscariot*, Stephen Adly Guirgis; *On Religion*, Mick Gordon and A C Grayling – i gyd yn ceisio edrych ar grefydd ar ôl y digwyddiad enfawr yna ym mis Medi yn Efrog Newydd. A llifodd *Iesu!* i mewn i'r ffrwd yna.

Felly, drama am syniadau yw hi ar sawl ystyr. Mae Cymru ar y cyfan yn genedl bellach sydd wedi rhoi'r gorau i feddwl. Y cwestiwn oedd gen i oedd hyn – os ydach chi'n berson crefyddol, yna pam? Os ydach




**Uchod: Moment
emosiynol rhwng
Jiwdas ac Iesu.**

**Isod: Fflur Medi
Owen fel Iesu yn
Iesu!**

chi'n ddi-gred, yna pam? Ac edrych fel y mae pobl o hyd yn creu Iesu i'w dibenion eu hunain: er mwyn diwallu eu hawch am rym, neu i liniaru rhyw broses fewnol-seicolegol ynddyn nhw eu hunain gan fynnu wedyn mai *hwn* yw'r Iesu gwir – pobl fel Peilat a'r ffundamentalwyr/efengylaidd cyfoes ac Aled Jones-Williams hefyd! Ar un wedd *tabula rasa* yw Iesu y medrwch chi sgwennu arni unrhyw beth: pob hang-up, pob gwleidyddiaeth wyrdroedig, dyheadau dyfnaf y galon ddynol, fy holl freuddwydion.

Cyhoeddir y ddrama hon gan Wasg Gomer, £5.99, www.gomer.co.uk

Offeiriad yn yr Eglwys yng Nghymru yw Aled Jones-Williams, bardd, llenor a dramodydd. Enillodd y goron am ei gerdd 'Awelon' yn Eisteddfod Genedlaethol Tŷ Ddewi ym 2002.



Prif Arholwr

Christopher Owens

Blwyddyn ym mywyd ...

Mae Christopher Owens yn myfyrio ar flwyddyn nodweddiadol fel prif arholwr ar gyfer Manyleb B Astudiaethau Crefyddol ac fel uwch arholwr ar gyfer Islam, Manyleb A Astudiaethau Crefyddol gyda CBAC.

Rwyf yn arweinydd pwnc mewn adran Astudiaethau Crefyddol un o'r ysgolion cyfun mwyaf yng Nghymru. Rydym yn cyflwyno myfyrwyr ar gyfer yr holl ystod o arholiadau Astudiaethau Crefyddol sydd ar gael: Lefel Mynediad; cyrsiau llawn a byr TGAU; ac UG a lefel-A. Yn ogystal, rwyf yn brif arholwr i CBAC. Fi yw'r person sy'n paratoi'r papur Astudiaethau Crefyddol TGAU Manyleb B opsiwn A – Crefydd a Bywyd.

Mae nifer o gydweithwyr Astudiaethau Crefyddol yn cysylltu'r term 'prif arholwr' â'r 'papur', ond mae llawer iawn mwy i'r rôl nag ysgrifennu papur arholiad newydd bob blwyddyn. Ysgrifennu papurau arholiad TGAU a marcio papurau yw un o'r agweddau sydd wedi rhoi'r boddhad mwyaf i mi yn ystod fy ngyrfa broffesiynol. Credaf ei bod yn ffrainc cymryd rhan yn y broses hon, er nad yw heb ei her ei hunan. Gobeithaf y bydd yr erthygl hon yn taflu goleuni ar flwyddyn ym mywyd prif arholwr.

I'r rhan fwyaf sy'n gweithio mewn ysgolion; mae'r flwyddyn ysgol yn dechrau o ddifrif ym mis Medi. I mi, dyma'r amser pan yw fy mlwyddyn fel prif arholwr yn dod i ben. Dyma'r amser pan fydd pecynnau brown yn disgyn trwy'r twll llythyrau sef ceisiadau i ail farcio papurau ar ôl arholiadau'r haf. Byddaf yn gorffen fy nhasg olaf ym mlwyddyn arholwr trwy ail farcio rhai sgriptiau y gwnaethpwyd ymholiadau ynglŷn â hwy gan ganolfannau neu rieni. Nid wyf byth yn gwybod sawl sgript y bydd angen ei hail farcio, ac mae'r broses hon yn parhau o ddechrau mis Medi hyd at ganol mis Hydref. Eithriadau yn hytrach na'r norm arferol yw'r ceisiadau am ail farcio. Fy rôl i yw sicrhau cywirdeb y marc gwreiddiol a ddyfarnwyd gan arholwr a bod y cynllun marcio wedi ei weithredu. Efallai y bydd y

papur eisoes wedi ei farcio ddwywaith; gan yr arholwr gwreiddiol mewn coch ac yna mewn gwyrdd gan yr arweinydd tîm sy'n goruwchwylio'r arholwr. Rwyf innau'n marcio mewn porffor i ddyfarnu'r marc terfynol. Efallai y bydd yn rhaid i mi ddyfarnu marc is, yn hytrach nag uwch, am fod yr arholwr gwreiddiol wedi bod yn rhy hael, o bosibl.

Tymor yr Hydref hefyd yw tymor cyrsiau HMS wedi eu trefnu gan CBAC pan roddir adborth ffurfiol i gydweithwyr ynglŷn ag arholiadau'r haf. Mae ymarferion marcio i'w paratoi er mwyn rhoi cyfle i athrawon roi cynnig ar farcio. Mae hefyd yn gyfle i ddarparu syniadau i athrawon ynglŷn ag addysgu'r fanyleb. Fel arfer, rhennir y gwaith o gyflwyno HMS rhwng yr uwch arholwyr – fel y tyfodd y fanyleb, felly hefyd nifer y cyrsiau HMS. Cesglir y deunydd yn ystod tymor yr haf yn union cyn y cyrddau HMS, fel arfer ar ôl y cyfnod marcio yn yr haf ac yn ystod gwyliau'r haf. Treulir llawer o amser yn darparu deunyddiau o safon uchel a ddosberthir ar CD y dyddiau hyn.

Ar ôl hanner-tymor yr Hydref, mae'n bryd eistedd i lawr i baratoi'r papur arholiad. Mae hwn yn brofiad o weithio'n gyfangwbl ar fy mhen fy hun, gan dynnu ar fy mhrofiad proffesiynol fy hun i lunio papur heriol a diddorol. Ar yr un pryd rwyf yn darparu cynllun marcio sy'n cynnwys nifer o atebion posibl. Rwyf bob amser yn ymwybodol o'r hyn rwyf yn ei alw'n 'deadline y Nadolig;' rhaid gorffen y papur newydd cyn diwedd Rhagfyr, tua deunaw mis cyn yr arholiad. Efallai y byddaf yn defnyddio cymaint â 30 o ddelweddau ar gyfer pob arholiad; rwyf yn wastad yn chwilio am ddelweddau newydd. Rhaid i'r cynllun marcio ymdrin â'r chwe phrif draddodiad crefyddol ym Mhrydain; gall fod tua 30 tudalen o hyd.

Yn dilyn hyn, bydd y broses adolygu'n dechrau ar unwaith o'r bron. Anfonir y papur drafft i'r Adolygydd sydd â'r cyfrifoldeb o sicrhau fod y papur yn gywir a hygyrch. Pan fydd y copi diwygiedig yn cyrraedd fy nescg byddaf yn cael y cyfle i'w newid cyn Pwyllgor Gwerthuso'r Papur Arholiad (QPEC: *Question Paper Evaluation*

Committee) – pan adolygir y papur gan nifer o uwch arholwyr ac athrawon mewn gwasanaeth ar hyn o bryd. Neilltuir diwrnod llawn ar gyfer y broses hon o sicrhau fod y papur yn gywir ar gyfer y miloedd o ymgeiswyr a fydd yn sefyll yr arholiad, a gwneir newidiadau i'm papur gwreiddiol. Yr egwyddor sylfaenol yn y cyswllt hwn yw llunio papur sy'n deg i ymgeiswyr.

Erbyn tua diwedd tymor y gwanwyn byddaf yn derbyn braslun wedi ei argraffu o'r papur a'r cynllun marcio. Rhaid archwilio'r rhain yn fanwl gan dîm bychan o uwch arholwyr, y Swyddog Pwnc a minnau i sicrhau nad oes ynddynt gamgymeriadau. Yn olaf, rwyf yn arwyddo i ddweud eu bod yn gywir ar gyfer eu hargraffu. Nid oes arnaf eisiau gwneud camgymeriad oherwydd bydd miloedd o bapurau'n cael eu hargraffu.

Fel arfer bydd y broses ynghlwm wrth y papurau arholiad yn dod i ben yn union cyn bod angen i mi droi at y cynllun marcio am y flwyddyn gyfredol. Yn gynnar yn y gwanwyn mae'r timau o farcwyr ar gyfer arholiadau'r haf yn cael eu trefnu. Rwyf yn archwilio fy nodiadau ynglŷn â'r marcwyr o'r flwyddyn flaenorol ac yn cynnig awgrymiadau parthed lle dylid eu gosod. Mae i bob tîm o farcwyr arweinydd tîm profiadol a goruchwylir hwythau gan y prif arholwr, fel pyramid mawr gyda'r prif arholwr ar y brig. Mae pob aelod o'r pyramid yn farciwr sy'n cwblhau'r gwaith hwn yn ystod arholiadau'r haf ac yn ystod y broses archwilio'r gwaith pawb sy'n marcio gan gynnwys hyd yn oed brif arholwr fel fi. Bydd y broses benodol o farcio'n parhau am dair wythnos – amser prysur i'r holl farcwyr. Ar ddiwrnod yr arholiad ym mis Mai rwyf yn pryderu bob amser: a yw'r papur yn mynd rhagddo'n hwylus. Os yw'n cynnwys un camgymeriad gallwch fentro y bydd rhywun yn ffonio'r Swyddog Pwnc i roi gwybod iddo. A bydd ef yn fy ffonio i!

Ar ddechrau'r broses o farcio, byddaf yn arwain cwrs undydd dwys o hyfforddiant ar gyfer y tîm ac uwch arweinwyr timau mewn pwyllgor a gynhelir cyn y gynhadledd. Bydd pawb ohonom yn gweithio trwy dri phapur wedi eu dewis ac a ddefnyddir yng

ngynhadledd yr arholwyr. Dewiswyd y papurau er mwyn codi materion penodol a rhoi arweiniad i farcwyr cynorthwyl ynglŷn â'r safon ddisgwyliedig o safbwynt graddau A, C ac E. Y noswaith gynt, bydd yr uwch arholwr a minnau wedi gweithio trwy ddetholiadau o bapurau a ddewiswyd o bedair canolfan, o leiaf er mwyn dewis y sgriptiau mwyaf addas. Yn ystod y diwrnod cyn y gynhadledd rydym yn gweithio'n glòs fel tîm; archwilir y cynllun marcio gan yr arweinwyr timau unwaith eto gan wneud unrhyw newidiadau mae angen eu cynnwys. Rydym yn cytuno fel tîm ar y safon a daw diwrnod blinedig i arweinwyr timau i ben, yn barod ar gyfer y gynhadledd arholiadau ar y diwrnod dilynol.

Yng nghynhadledd y marcwyr cynorthwyl mae'r arweinwyr timau'n gwneud y gwaith caled o arwain eu timau trwy'r tri phapur a farciwyd y diwrnod cynt. Yn dilyn sylwadau agoriadol gan y Swyddog Pwnc, byddaf yn rhoi cyflwyniad byr ynglŷn â sut y gweithiodd y papur o safbwynt yr ymgeiswyr ac yn cyflwyno'r drefn ar gyfer y broses o farcio. Yn ystod y dydd rwyf ar gael i gynorthwyo arweinwyr timau ac ateb unrhyw gwestiynau. Gyda'r nos byddaf yn dechrau ar fy ngwaith marcio personol fy hun fel arfer – fel pawb arall byddaf yn marcio deg sgript – ond anfonir hwy i'r Uwch Arholwr i'w harchwilio. Pan dderbyniaf ganiatâd i fwrw ymlaen â'r marcio, gallaf wedyn barhau â'r nifer penodol o'm sgriptiau fi fy hun.


Yn ystod y tair wythnos yma, rhaid i mi hefyd fod ar gael i ateb unrhyw ymholiadau ffôn ynglŷn â marcio. Yn ddiweddar daeth e-bostio'n rhan bwysig iawn o'r broses hon. Fel arfer, mae'r ffôn a'r e-bost yn hynod o brysur yn ystod y tair wythnos yma pan fo arweinwyr timau neu farcwyr yn cysylltu â mi i ofyn am ddyfarniad ynglŷn â chwestiwn penodol, lle bydd ymgeisydd yn rhywle wedi rhoi ateb astrus i gwestiwn syml neu wedi ymateb i gwestiwn mewn dull nad oedd neb wedi ei ragweld. Yr alwad gynharaf a dderbyniais yn gofyn am gyngor oedd 6.15 a.m. a'r olaf am 11.00 p.m.! Mae pob marciwr yn dilyn patrwm dyddiol sy'n

gweithio iddynt hwy. Ar yr un pryd rwyf yn arwain tîm bychan o farcwyr fy hunan a bydd angen i mi ail farcio eu sampl cyntaf o ddeg sgript ynghyd â detholiad pellach o 25 o sgriptiau. Er mawr ryfeddod, mae'r holl farcwyr yn gorffen eu gwaith mewn pryd ar ddiwedd y broses hon sy'n parhau am dair wythnos. Maent wedi marcio dros dri chant o sgriptiau yr un a chwblhau eu ffurflenni 'L' ar gyfer y papurau hyn.

Er fy mod yn gorffen fy marcio personol yn gynnar ym Mehefin, nid yw'r gwaith eto ar ben. Ar ddiwedd tymor yr haf, fel arfer yn ystod wythnos gyntaf gwyliau'r haf, byddaf yn mynychu cyfarfod 'dyfarnu' pan archwilir safonau'r arholiad a bydd tîm o

uwch arholwyr a chynrychiolwyr o blith yr athrawon yn archwilio safonau atebion arholiad trwy eu cymharu â sgriptiau arholiad o archif y flwyddyn flaenorol. Mae'r diwrnod llawn a dwys hwn yn gwarchod safon y broses ar gyfer TGAU. Cyn y cyfarfod hwn, byddaf wedi ysgrifennu adroddiad ar y papur a fydd yn cael ei gyhoeddi a'i anfon i bob canolfan yn yr Hydref. Amcan yr adroddiad yw cynnig canllawiau i ganolfannau ynglŷn â pherfformiad ymgeiswyr yn arholiadau'r haf. Dyma'r rhan olaf un o'm swydd fel prif reolwr cyn diwedd y flwyddyn academiaidd! Nawr ble mae'r pin sgrifennu porffor yna ar gyfer mis Medi ...?

St Deiniol's Library - a health farm for the mind



Founded by William Ewart Gladstone in 1894, St Deiniol's Library is recognised as the most important independent research library in Wales.

Many of our scholars come to the Library to find space and inspiration for their own writing. Over the past 10 years, some 400 books have been written or researched wholly or in part at St Deiniol's Library - a striking testimony to the creative and stimulating environment which scholars enjoy.

St Deiniol's Library holds an internationally important collection numbering over 250,000 printed items. The online catalogue can be searched remotely via our website.

The Library boasts outstanding resources in our core subject areas of Theology and Victorian Studies which are kept up to date with the latest publications. Most of the holdings are on open access and readers are able to browse among extensive collections which also include Religious Education, Church History, Biblical Studies, Philosophy, Political and Social History, Literature, Art and Cultural History.

St Deiniol's is open to all those who wish to undertake research within the collections, subject to a satisfactory testimonial.

As a residential library St Deiniol's is able to provide accommodation at highly competitive rates. Further discounts apply to clergy and to students.

St Deiniol's provides an extensive programme of short courses throughout the year. For information on the latest courses please visit our website or subscribe to our on-line newsletter '*Library Matters*'.

St Deiniol's also invites applications for scholarships. The scholarships support research visits to the Library. Details of how to apply for a scholarship can be obtained by contacting the Library.



© P. Barker

St Deiniol's Library, Church Lane, Hawarden, CH5 3DF

01244 532350 enquiries@st-deiniols.org

www.st-deiniols.org

Dan Sylw

Gill Vaisey

Mae'r awdur, Gill Vaisey'n ysgrifennu am ei hadnodd newydd ar gyfer y Cyfnod Sylfaen, Yr Adar Bach, ac yn esbonio pam mae AG dda'n hwyl.

Dylai AG fod yn hwyl. Dyma'r athroniaeth sy'n sail i'r adnodd a gynhyrchais ar gyfer Books@Press – adnoddau wedi eu cynllunio'n benodol i'w defnyddio gyda phlant yn y blynyddoedd cynnar a'r Cyfnod Sylfaen mewn addysg. Dechreuais ddatblygu fy nghyfres gyntaf o adnoddau ym 2001 a gyhoeddwyd ym 2003. Cynhyrchwyd yr adnoddau i ategu ymarfer gorau wrth weithio gyda phlant y blynyddoedd cynnar a o ganlyniad i arsyllu arnynt ym 2001 – mae'r un athroniaeth bellach yn ganolog i Gam Sylfaen y cwricwlwm.

Mae amgylcheddau dan do ac awyr agored sy'n hwyl, yn gyffrous, yn ysgogol ac yn ddiogel yn hybu datblygiad plant a chwilfrydedd naturiol i archwilio a dysgu trwy brofiadau uniongyrchol. Dylai amgylchfyd y Cyfnod Sylfaen hybu sgiliau darganfod ac annibyniaeth a rhoi mwy o bwyslais ar ddefnyddio'r amgylchedd awyr agored fel adnodd ar gyfer dysgu plant. (*Fframwaith ar gyfer Dysgu Plant 3 a 7 oed yng Nghymru*, t.4.)

Gyda'r egwyddorion uchod mewn golwg, rwyf newydd ddatblygu f'adnodd diweddaraf i ategu addysg grefyddol a dealltwriaeth o amrywiaeth diwylliannol yn ystod y Cyfnod Sylfaen. Mae'r *Adar Bach* yn adeiladu ar lwyddiant teitlau cynharach *The Tiny Ants* a *The Seven New Kittens*.

Mae'r tair stori Fwslimaidd draddodiadol hon yn rhoi cyfle i blant ystyried eu hagwedd hwy tuag at greaduriaid byw yn ogystal â chredoau eraill ynglŷn â chreu a chyfrifoldeb am bopeth byw. Syniadau yw'r rhain y gall hyd yn oed y plant lleiaf yn ein dosbarthiadau meithrin ymdopi â hwy pe archwilid hwy trwy gyfrwng deunydd cyffrous sy'n addas i'w hoedran. Yr hyn sy'n ychwanegu at addasrwydd y deunyddiau hyn yw y gall plant gael profiadau uniongyrchol cyffrous o'r agweddau ar fydd natur a archwilir yn y llyfrau. Trwy gysylltu cynnwys a neges y storïau â'r byd go iawn, daw'r storïau'n fyw, a thrwy hynny dangosir eu perthynas a bywyd bob dydd.

Mae hyn yn darparu'r cyfle i wneud y

gorau posibl o ddysgu yn yr awyr agored. Wedi eu harfogi â chamerau digidol, chwyddwydrau, llyfrau cyfeirio ffeithiol a *wellingtons*, bydd plant wrth eu bodd yn dod o hyd i'r creaduriaid y cyfeirir atynt yn stori'r *Tiny Ants* a/neu ddod o hyd i'r gwahanol adar fel yn stori'r *Adar Bach*. Bydd mynd am dro trwy goedwig yn yr ardal, yr ardd, neu ranbarth o goed ar dir yr ysgol yn antur wirioneddol. Gellir rhoi'r holl sgiliau o adnabod, ymchwilio, cyflwyno sylwadau, cymharu a disgrifio ar waith. Wrth archwilio'r lleoedd mae'r creaduriaid yn byw ynddynt ac arsylwi ar y ffordd maent yn ymddwyn, gall y plant wneud y gorau o'u cornel chwarae bach hwy, naill ai yn eu hystafell ddosbarth arferol neu yn awyr agored. Gellir hyrwyddo sgiliau mathemategol trwy ddosbarthu, paru, gosod pethau mewn trefn, cymharu gwahanol bethau a digwyddiadau, casglu data a dehongli gwybodaeth ar ffurf graff syml neu ddiagramau. Trwy ddilyn llwybr hela'r bwystfil – bach, mae'r pictogram lliwgar o'r pecyn *The Tiny Ants* yn darparu cyfle i'r plant gael hwyl yn cofnodi'r hyn maent wedi eu darganfod hyd at chwech o'r bwystfilod-bach. Yn ychwanegol mae gwefan RSPB (www.rspb.org/ourwork/teaching) yn cynnig syniadau y gellir eu llawr-lwytho a thafleddi gwybodaeth i arsylwi ar, a chofnodi adar a'u gweithgareddau ar dir yr ysgol neu yn yr ardal.

Mae'n hanfodol bod plant yn cael mynediad i amrywiaeth o gyfryngau i fynegi eu hunain a digon o gyfleoedd i ddefnyddio eu dychymyg mewn ffordd bwrpasol. (*Fframwaith ar gyfer Dysgu Plant 3 a 7 oed yng Nghymru*, t.5.)

Argraffwyd y llyfr *Yr Adar Bach* yn Saesneg a cheir CD Rom i gyd fynd ag ef sy'n cynnwys fersiwn gweledol a chlywedol o'r llyfr y gellir ei ddefnyddio ar y bwrdd gwyn neu gyfrifiadur personol. Yn ychwanegol, darparwyd dau fersiwn Cymraeg o'r stori ar CD Rom i gefnogi'r ysgolion Cymraeg eu cyfrwng ynghyd â'r ysgolion Saesneg ag iddynt adran Ddatblygu'r Gymraeg. Ysgrifennwyd y fersiwn symlaf o'r stori gan ddau hyfforddwr ac ymgynghorwr y Gymraeg sy'n cynnwys ymadroddion



Yn yr ystafell ddosbarth: mae disgyblion Cyfnod Sylfaen yn archwilio adar efo'r pypedau sy'n mynd gyda llyfr stori Yr Adar Bach.

cyfarwydd a llawer o ail adrodd mae plant yn ei fwynhau. Mae'r fersiwn hwn hefyd yn ddelfrydol i hybu symud a chwarae rôl am fod gweithgareddau fel sboncian, hedfan, plymio a chodi i'r awyr yn amlwg iawn yn y llyfr. Mae ymadroddion fel, 'Dwi'n hoffi hedfan', 'Dwi'n hoffi sboncian' ac 'A fi hefyd' yn sicr o gael y plant i symud! Mae set o byped llaw a phum pyped bys – y fam a'r pump aderyn bach yn apelio'n fawr at blant ac yn eu hannog i chwarae. Yn ogystal, mae'r nyth (y gellir ei ddefnyddio fel bag i gadw'r adar) yn rhoi cyfle i'r plant ddatblygu sgiliau rhifo trwy chwarae wrth i'r adar hedfan i mewn ac allan o'r nyth yn eu tro. Mae'r hyn a ddefnyddir gan y plant i greu eu nyth eu hunain ar gyfer yr adar bach yn rhyfeddol. Efallai fod brigau, plu a dail yn ddewisiadau amlwg ond gosodwyd blociau adeiladu yn y nyth yn ofalus i wneud lle i'r teulu bach o bump!

Bydd plant yn dysgu drwy weithgareddau sy'n cynnig profiadau uniongyrchol gyda'r busnes

difrifol o 'chwarae' yn darparu'r cyfrwng. Drwy eu chwarae, bydd plant yn ymarfer a chyfnerthu eu dysgu, yn chwarae gyda syniadau, arbrofi, cymryd risgiau, datrys problemau, ac yn gwneud penderfyniadau'n unigol, mewn grwpiau bach a mawr. Mae profiadau uniongyrchol yn galluogi plant i ddatblygu dealltwriaeth o'u hunain a'r byd y maent yn byw ynddo. (*Fframwaith ar gyfer Dysgu Plant 3 a 7 oed yng Nghymru*, t.4.)

Mae'r agwedd drawsgwricwlaidd hon yn cefnogi athrawiaeth cwricwlwm Cyfnod Sylfaen ac yn plethu addysg grefyddol â meysydd eraill o ddysgu.

Mae saith Maes Dysgu wedi cael eu pennu i ddisgrifio cwricwlwm priodol ar gyfer plant 3-7 oed sy'n cefnogi datblygiad plant a'u sgiliau. Mae'n rhaid i'r Meysydd Dysgu hyn gyd-fynd a chydweithio â'i gilydd i ddarparu dull trawsgwricwlaidd o greu cwricwlwm perthnasol ac ymarferol. Ni ddylid eu trin ar wahân. Rhoddir y pwyslais ar ddatblygu sgiliau plant ar draws y Meysydd Dysgu er mwyn sicrhau bod plant ifanc yn dysgu mewn modd addas ac integredig. (*Fframwaith ar gyfer Dysgu Plant 3 a 7 oed yng Nghymru*, t.14.)

Tu allan: wedi'u hysbrydoli gan Yr Adar Bach, mae'r disgyblion yn neidio a hedfan.



Tra bo'r anghenion sydd ynghlwm wrth ddarparu addysg grefyddol wedi eu rhestru ym mhob un o'r Meysydd Llafur lleol, mae pob un o'r meysydd llafur hyn ledled Cymru'n cyflwyno cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen yn ôl sgiliau ac ystod yr hyn sydd i'w gyflwyno. O ganlyniad mae'r Maes Llafur Cytûn AG yn cydfynd â chwricwlwm y Cyfnod Sylfaen ac wrth gynllunio ar gyfer themâu neu bynciau penodol bydd addysgwyr yn rhoi ystyriaeth i'r saith Maes Dysgu yn ogystal ag AG. Fel yn achos y Meysydd Dysgu eraill, ni ddylid cyflwyno AG mewn gwagle. Mae cysylltiadau amlwg rhwng nifer o bynciau ac AG, er enghraifft, Pobl sy'n Ein Helpu, Dyddiau Gŵyl a Dathlu a'n Byd Ni. Bydd angen rhoi ystyriaeth fwy manwl wrth chwilio am gyswllt addas â phynciau eraill fel Anifeiliaid a Dŵr ac efallai y byddai'n well hepgor yr elfen AG wrth drafod pynciau fel Môr ladron a Deinosoriaid! Fel yn achos meysydd eraill o ddysgu nid oes angen cynnwys agwedd ar AG ym mhob pwnc. Byddai ystod eang o

bynciau sy'n ysbrydoli'r plant eu hunain yn sicrhau fod pob Maes Dysgu ac AG yn derbyn sylw digonol dros gyfnod o amser.


Bydd yr adnodd AG gorau'n ysgogi plant i ddatblygu eu dealltwriaeth o gredoau crefyddol a'r ffordd maent yn effeithio ar fywyd credinwyr. Byddant yn darparu cyfle i blant ddatblygu ac ymarfer ystod eang o sgiliau. Byddant yn codi cwestiynau ac yn annog plant i feddwl am eu hagweddau a'u gwerthoedd hwy eu hunain yn ogystal â rhai pobl eraill. Dylent ddarparu digon o gyfle trwy gyfrwng gweithgareddau transgwricwlaidd i ysgogi a herio. Yn bwysicaf oll – dylai AG fod yn HWYL!

Ymgynghorydd Addysg Grefyddol yw Gill Vaisey sy'n arbenigo mewn addysg gynradd a'r blynyddoedd cynnar. Hi yw Cadeirydd y Panel Cenedlaethol Ymgynghorol ar gyfer Addysg Grefyddol.

*St Deiniol's - the finest
independent library in Wales.*

*A centre of theological
research and reflection.*

*Accommodating scholars
for a hundred years.*



© P.Barker

St Deiniol's Library, Church Lane, Hawarden, Flintshire, CH5 3DF
Call us on 01244 532350 or visit our website at www.st-deiniols.org

Adolygiadau

Tania ap Siôn ac Ann Suter

Mae'r holl adnoddau a adolygir yn yr adran hon yn rhan o gasgliad AG a chydaddoli yn Llyfrgell St Deiniol, Penarlâg. Ewch i <http://www.st-deiniols.com> am ragor o wybodaeth am y Llyfrgell.

Cydaddoliad

Gordon Lamont (gol) (2008), *Primary School Assemblies for a Just World*, SPCK a Chymorth Cristnogol, 978-0-281-06014-6, 168 tud, lluniau du a gwyn, clawr meddal, £10.99.

Mae'r llyfr hwn yn darparu deunydd cyfoethog ac amrywiol sy'n archwilio ac esbonio materion yn ymwneud â datblygiad byd-eang ar gyfer plant ysgolion cynradd. Ceir deg ar hugain o wasanaethau addoli ar gyfer CA1, CA2 ynghyd â'r ysgol gyfan. Nodir yn glir ar gyfer pa oedran y bwriedir y gwasanaethau, gyda'r posibilrwydd o 4/5 o weithgareddau ystafell ddosbarth pellach a dolennau ag ABCh, Dinasyddiaeth ac AG. Mae'r gwasanaethau wedi eu didoli'n bump adran:

Datblygiad
Bwyd, dŵr, a lloches i bawb
Plant
Rhyfel a Heddwch
Materion yn ymwneud â'r Amgylchedd.

Maent yn gorffen â myfyrdod a gweddi i helpu plant i gysylltu materion yn ymwneud â datblygu â'u bywydau hwy eu hunain. Mae hwn yn llyfr delfrydol a hygyrch i bawb sy'n arwain gwasanaethau addoli mewn ysgolion cynradd.

Ann Suter

Margaret Cooling (2008), *More Assemblies for Primary Schools*, RMEP, 96tud., lluniau du a gwyn, clawr meddal. Mae teitlau yn y gyfres yn cynnwys:

***More Assemblies for Primary Schools: autumn term*, 978-1-85175-356-7, £9.99**

***More Assemblies for Primary Schools: spring term*, 978-1-85175-357-4, £9.99**

***More Assemblies for Primary Schools: summer term*, 978-1-85175-358-1, £9.99**

***More Assemblies for Primary Schools Pack*, 978-1-85175-361-1, £24.97**

Mae hon yn gyfres gynhwysfawr o lyfrau ar gyfer gwasanaethau cydaddoli i athrawon prysur ac yn cynnwys rhaglen eang i ymdrin â hi ac un sy'n ysgogi myfyrdod yn y gwasanaethau addoli. Mae'r gyfres yn tynnu ar ddirnadaeth fewnol o ehangder y traddodiad Cristnogol a diwylliannau Cristnogol ar draws y byd.

Mae pob llyfr yn cynnwys 70 o wasanaethau sydd, yn fras, yn Gristnogol, i'w defnyddio mewn ysgolion cynradd. Maent hefyd yn gyflwyniad llawn gwybodaeth ac yn arweiniad i'r sawl sy'n ymgymryd â chydaddoliad. Rhennir y llyfrau'n dri thymor gyda phob llyfr yn cynnwys amrywiaeth o themâu'n ymdrin ag elusennau, saint, gwerthoedd, gwyliau, cofiannau, gwyddoniaeth a storïau o'r Beibl. Dylai aelodau o'r staff ddod o hyd i rywbeth yma y maent yn teimlo'n gyfforddus wrth ei gyflwyno. Ysgrifennwyd y rhan fwyaf o'r gwasanaethau mewn cyfres o bump, a cheir mynegai i themâu gwahanol i'w cynorthwyo i greu rhaglen gyfan i'r ysgol.

Ann Suter

Cynradd

Margaret Cooling (2008), *Bible Storybags*, BRF, 978-84101-532-3, 128 tud, lluniau du a gwyn, clawr meddal, £12.99. Mae'r adnodd ar gael hefyd ar ffurf pdf i'w ddadlwytho.

Mae *Bible Storybags* yn tynnu ar ddirnadaeth o nifer o adrannau, gan gynnwys sgiliau meddwl, datblygu deallusrwydd, ennyn a datblygu ysbrydolerwydd Cristnogol, y celfyddydau creadigol, a ffydd. Sylfaenwyd y deunydd ar ddulliau adrodd stori sydd eisoes wedi eu trialu'n llwyddiannus fel 'bagiau stori' a *Godly Play*, ac fe'i cynlluniwyd trwy gyfrwng sgriptiau ar wahân ar gyfer cyfnodau CA1 a CA2 ac mae'n ddelfrydol ar gyfer AG neu wasanaethau cydaddoli. Mae pob uned yn pwysleisio'r agwedd 'dysgu o grefydd' mewn AG. Mae'r storïau'n adrodd hanes y digwyddiadau allweddol ym

mywyd Iesu, y Damhegion a phobl. Cynhwysir cyfarwyddiadau clir ar gyfer gwneud y bagiau stori ac hefyd ceir deunydd gweledol rhyngweithiol ar y we o'r bagiau stori; ceir mynediad iddi trwy gyfrwng safle *Barnabas*,

www.barnabasinschools.org.uk/storybags

Ann Suter

Tania ap Siôn, Leslie J Francis, Diane Drayson (2009), *World Faiths Today Series: teachers' handbook*, Canolfan Genedlaethol Addysg Grefyddol, 978-1-85357-192-3, 200 tud., Lluniau du a gwyn, rhwymiad troellog A4, £18.00.

Mae'r llawlyfr hwn i athrawon yn rhan o'r Gyfres Crefyddau'r Byd Heddiw sy'n cynnwys saith llyfr stori i ddisgyblion CA2 ac yn ymdrin â'r Eglwys Anglicanaidd, Eglwys Uniongred y Dwyrain, Islam, Iddewiaeth, Hindŵaeth, Bwdhaeth, a Sikhaeth. Gwahoddir disgyblion ac athrawon fel ei gilydd i ymuno â Rhys a Sara wrth iddynt ddathlu'r amrywiaeth o arferion crefyddol yng Nghymru. Mae'r llawlyfr yn darparu adnodd addysgu gwerthfawr a hyblyg ar gyfer athrawon ac yn cynnwys:

gwybodaeth fanwl o'r cefndir ynglŷn â'r saith traddodiad crefyddol sy'n ymwneud â'r pump thema (mannau addoli, dyddiau gŵyl, awdurdod, gofalu am eraill ac am y byd, a bwyd)

crynodeb o'r stori

amcanion clir a chanlyniadau dysgu gweithgareddau ystafell ddosbarth i ddatblygu ymhellach ddealltwriaeth y disgybl

geiriau allweddol

taflenni gwaith ar gyfer unigolion neu'r dosbarth gan ddefnyddio bwrdd gwyn.

Datblygwyd y llawlyfr (a'i noddi gan Lywodraeth y Cynulliad) i ategu *Fframwaith Cenedlaethol Cymru ar gyfer cyflwyno Addysg Grefyddol i ddysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru*. Mae'n cynnwys nifer o awgrymiadau ymarferol gan gyfrannu at ddatblygiad ysbrydol, moesol, diwylliannol, meddyliol a chorfforol dysgwyr o safbwynt Addysg Grefyddol. O safbwynt y tair sgil

sy'n cael eu diffinio gan y Fframwaith Enghreifftiol, mae'r gyfres yn defnyddio'r sgil o 'archwilio credoau, dysgeidiaethau ac arfer(ion) crefyddol' fel man cychwyn i 'ymdrin â'r cwestiynau sylfaenol' a 'mynegi ymatebion personol.' Mae'r llawlyfr ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg a bydd yn adnodd pwysig ar gyfer athrawon. Mae'r llawlyfr a'r llyfrau stori ar gael o gatalog arlein Cyngor Llyfrau Cymru: <http://www.gwales.com/>

Ann Suter

Gavin Craigen a Fiona Craigen (2008), *Cyfres Cwestiynau Pwysig Mewn Crefydd, Gwasg UWIC*. Ceir pecyn i ddisgyblion sy'n cynnwys chwe llyfr (£24.99) neu deitlau unigol (£4.99) a ffeil i athrawon £19.99).

***Byd pwy ydy hwn?* [llyfr i ddisgyblion] 978-1-905617-37-1, 26 tud., lluniau lliw, clawr meddal.**

***Beth sy'n ein gwneud ni'n ddynol?* [llyfr i ddisgyblion] 978-1-905617-39-5, 38 tud., lluniau lliw, clawr meddal.**

***A oes heddwch?* [llyfr i ddisgyblion] 978-1-905617-41-8, 30 tud., lluniau lliw, clawr meddal.**

***A ydy awdurdod yn creu rhyddid?* [llyfr i ddisgyblion] 978-1-905617-43-2, 42 tud., lluniau lliw, clawr meddal.**

***Beth sy'n real?* [llyfr i ddisgyblion] 978-1-905617-44-9, 22 tud., lluniau lliw, clawr meddal.**

***A oes rhaid marw?* [llyfr i ddisgyblion] 978-1-905617-45-6, 44 tud., lluniau lliw, clawr meddal.**

Pecyn Adnoddau i Athrawon, 978-1-90-5617-49-4, 120 tud., lluniau du a gwyn, ffeil A4.

Adnodd arall o ansawdd uchel a gomisiynwyd a'i noddi gan Lywodraeth y Cynulliad ar gyfer cyfnod allweddol 2 i ategu'r *Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer cyflwyno Addysg Grefyddol i ddysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru yw'r gyfres Cwestiynau Pwysig Mewn Crefydd*. Fel yr awgryma chwe teitl llyfrau'r disgyblion, o safbwynt y tair sgil creiddiol a ddiffinir gan y Fframwaith Enghreifftiol mae'r gyfres yn defnyddio'r sgil

o 'ymdrin â'r cwestiynau sylfaenol' fel man cychwyn i 'archwilio credoau dysgeidiaethau ac arfer(ion) crefyddol' a 'mynegi ymarferion personol'.

Mae llyfrau'r disgyblion yn lliwgar a hygyrch gyda chymbwysedd da rhwng gwybodaeth a gweithgareddau; darperir digon o wybodaeth bob amser fel bo disgyblion yn ymdrin yn ystyrlon, ar eu lefel hwy eu hunain, â'r tasgau. Trwy gydol y gyfres defnyddir amrywiaeth o dasgau gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud ag ysgrifennu, meddwl neu fyfyr, drama, gweithio gyda phartner neu grŵp, celf a chrefft, darllen ac ymchwilio. Mae'r pecyn adnoddau i athrawon sy'n cyd fynd â'r gyfres yn cynnwys taflenni gweithgareddau y gellir eu llungopio a gwybodaeth i athrawon (mae'r olaf yn cynnwys y berthynas rhwng sgiliau craidd y Fframwaith Enghreifftiol a'r gyfres).

Tania ap Siôn

Lynne Broadbent a John Logan (2009), *Cyfres Storiâu i'w Cofio*, RMEP. Mae i bob teitl yn y gyfres 16 tudalen ac yn cynnwys lluniau lliw. Pris y Llyfr Mawr yw £15.99 yr un a llyfrau i ddisgyblion yn £2.99 yr un. Mae'r teitlau a gyhoeddwyd yn y gyfres yn cynnwys:

Helpa Ryfeddol o Bysgod a storïau Cristnogol eraill.

Y Bachgen â Sêr yn ei Geg a storïau Hindŵaidd eraill.

Asyn y Crochenydd a storïau Sikhaid eraill.

Tad Llauer a storïau Iddewig eraill

Mae fersiynau Cymraeg o'r teitlau hyn ar gael a chynhyrchwyd hwy mewn cydweithrediad â Chanolfan y Santes Fair yn Llyfrgell St Deiniol.

Mae'r gyfres *Storiâu i'w Cofio* yn cyflwyno detholiad o storïau mawr o chwe thraddodiad crefyddol i ddysgwyr rhwng 5 a 7 oed: Cristnogaeth, Iddewiaeth, Hindŵaeth, Islam, Sikhaeth a Bwdhaeth. Mae pob teitl yn cynnwys storïau unigol wedi eu dethol yn ofalus a'u hail adrodd â sensitifrwydd i gwrdd ag anghenion plant ifanc.

Mae tri theitl yn y gyfres eisoes wedi eu cyhoeddi: *Helpa Ryfeddol o Bysgod a storïau Cristnogol eraill* (y storïau a gynhwysir yw : helpa ryfeddol o bysgod, y dyn bach yn y goeden, penblwydd yr eglwys); *Y Bachgen â Sêr yn ei geg a storïau Hindŵaidd eraill* (y storïau a gynhwysir yw y bachgen â sêr yn ei geg, y duw pen eliffant a'r mwnci cadfridog); *Asyn y Crochenydd a storïau Sikhaid eraill* (y storïau a gynhwysir yw asyn y crochenydd, Bhai Lalo, gwir ffrind y Guru, a Bhai Ganaya, y cariwr dŵr). Cyhoeddir y pedwerydd teitl ym mis Hydref, sef *Tad Llauer a storïau Iddewig eraill* (mae'r storïau a gynhwysir yn ymwneud ag Abraham, Moses a Ruth).

Mae pob teitl ar gael mewn fformat Llyfr Mawr (ar gyfer y dosbarth/rhannu llyfrau darllen) a fformat llyfr disgyblion (ar gyfer gwaith unigol). Am ragor o wybodaeth am y gyfres a sut i brynu'r adnoddau ewch i <http://www.st-marys-centre.co.uk/curriculum-development/stories-to-remember.htm> (ar gyfer teitlau Saesneg) a <http://cymraeg.st-marys-centre.co.uk/datblygur-cwricwlwm/storïau-iw-cofio.htm> (ar gyfer teitlau Cymraeg) neu <http://www.rmep.co.uk/rmep>

Tania ap Siôn

Lynne Broadbent a John Logan (2009) *Cyfres Mannau Addoli*, RMEP. Mae 16 tudalen i bob teitl yn y gyfres, gyda lluniau lliw. Pris y Llyfr Mawr yn y gyfres yw £15.99 yr un a chyfres llyfrau disgyblion yn £2.99 yr un. Mae'r llyfrau a gyhoeddwyd yn y gyfres hon yn cynnwys:

Gartref ac yn yr Eglwys

Gartref ac yn y Synagog

Mae fersiynau Cymraeg o'r teitlau hyn ar gael ac wedi eu cynhyrchu mewn cydweithrediad â Chanolfan y Santes Fair, Llyfrgell St Deiniol.

Mae'r gyfres *Mannau i Addoli* yn cyflwyno plant rhwng 5 a 7 oed i fannau arbennig ac arferion Cristnogaeth, Iddewiaeth, Hindŵaeth, Islam, Sikhaeth, a Bwdhaeth trwy lygaid plant o'r gwahanol draddodiadau crefyddol. Hyd yma, mae dau

deitl ar gael yn y gyfres *Gartref ac yn yr Eglwys* (sy'n archwilio eglwys Anglicanaidd ac eglwys y Bedyddwyr gyda Tom a Megan) a Gartref yn y Synagog (sy'n archwilio Synagog Uniongred a Synagog Ddiwygiedig gyda David a Rachel). Mae'r storïau hyn wedi eu hysgrifennu'n dda fel bo'r plant yn mynd i'r afael â hwy, ac yn ffordd effeithiol i ddysgu am greddau ac arferion traddodiadau crefyddol ar gyfer disgyblion y Cam Sylfaen. Mae teitlau Cristnogaeth ac Iddewiaeth hefyd yn cynnig cyfle i ddisgyblion lwyddo i ymgynraedd at lefel uwch o gyrhaeddiad mewn AG lle bo gwerthfawrogi amrywiaeth o fewn crefydd yn ffactor. Mae'r Llyfr Mawr yn cynnwys gwybodaeth bellach i'r athrawon a gweithgareddau i'r disgyblion.

Mae pob teitl ar gael mewn fformat Llyfr Mawr (ar gyfer darllen yn y dosbarth / rhannu'r darllen) yn ogystal â fformat llyfr disgybl (ar gyfer darllen unigol). Am fwy o wybodaeth ynglŷn â'r gyfres a sut i brynu'r adnoddau, ewch i <http://www.st-marys-centre.co.uk/curriculum-development/places-of-worship.htm> (ar gyfer teitlau Saesneg) a <http://cymraeg.st-marys-centre.co.uk/datblygur-cwricwlwm/mannau-addoli.htm> (ar gyfer teitlau Cymraeg) neu <http://www.rmep.co.uk/rmep>

Tania ap Siôn

***Science and Religion in Schools: a guide to the issues for primary schools* (2006), Trafford Publishing, 141209194-2, 49 tudalen, lluniau du a gwyn, clawr meddal yn cynnwys CD ROM, £12.50. I weld sampl o'r deunydd ac i archebu, ewch i: <http://www.srsp.net>**

Lluniwyd y teitl hwn i hybu meddyliau agored wrth drafod materion sy'n ymwneud â gwyddoniaeth a chrefydd i sicrhau fod gan blant rhwng 7 ac 11 oed 'farn gytbwys ynglŷn â materion sy'n codi pan gymherir honiadau gwyddoniaeth â'r hyn a honnir gan brif grefyddau'r byd.'

Mae'r adnodd gwerthfawr hwn yn cynnwys naw uned sy'n archwilio ystyr, gwerthoedd, gwybodaeth, gwirionedd a natur perthynas pobl â'r byd; ceir cefnogaeth i bob un trwy gyfrwng nodiadau cefndir ac

arolwg cyffredinol, cynlluniau o wersi, cwestiynau allweddol, deunydd adnoddau athrawon, deunyddiau ategol gwahaniaethol i'r myfyrwyr a deunyddiau clyweled. Rhoddir lle hefyd i ddarparu sylfaen addysgol glir ar gyfer defnyddio'r adnoddau.

Tania ap Siôn

CA2 a 3

***Christianity Unpacked*, RE: Quest, CD ROM. Adnodd di-dâl.**

Fersiwn Gymraeg: *Dadbacio Cristnogaeth*, RE: Quest.

Mae *Dadbacio Cristnogaeth* yn adnodd di-dâl enfawr ar gyfer disgyblion cyfnod allweddol 2 a disgyblion cyfnod allweddol 3. Mae ar gael yn y Saesneg a'r Gymraeg ac yn cynnwys tair CD ROM sy'n trafod 34 pwnc wedi eu dosbarthu rhwng tair prif adran: Beth yw bod yn Gristion?; dathliadau a dysgeidiaeth allweddol Iesu. Yn ychwanegol, mae gwefan sy'n ddi-dâl yn gyfrwng i ddarparu llawer mwy o adnoddau, www.request.org.uk

Gwnaethpwyd ymdrech i gynnwys dimensiwn sylweddol o ddeunyddiau am Gymru (yn ychwanegol at yr agwedd ieithyddol), er enghraifft, cynhwysir rhith-daith o eglwys gadeiriol Tŷ Ddewi ymhlith yr adran o rith-deithiau o eglwysi cadeiriol Prydain. Hefyd, mae'r nifer uchel a'r amrywiaeth o enwadau sydd a'u lluniau yn yr adnodd yn nodwedd arbennig o werthfawr ar gyfer disgyblion hŷn.

Dylai pob ysgol yng Nghymru fod wedi derbyn copïau di-dâl o'r CD ROMS a ddosbarthwyd trwy gyfrwng eu CYSAG lleol.

Tania ap Siôn

***Jewish Way of Life* (2008), The Pears Foundation, CDROM, Adnodd di-dâl.**

Un arall o'r adnoddau o ansawdd uchel a gafwyd yn ddiweddar a hynny'n ddi-dâl i ysgolion yw'r *Jewish Way of Life*, a gynlluniwyd a'i ddatblygu gan *learnthings Africa* ar ran y *Pears Foundation* mewn cysylltiad â *World ORT* a'r *Board of Deputies*

of British Jews.

Mae'r CD ROM sy'n gwbl rhyngweithiol yn ymdrin â phob agwedd hanfodol ar Iddewiaeth a gynhwysir yn AG cyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3. Gan fod cynnwys y CD ROM wedi eu gosod allan yn glir mae dod o hyd i'r ffordd trwyddi yn rhwydd iawn. Rhennir yr adnodd yn dair prif adran dan y teitlau *Who we are*, *What we do* a *What we believe*. Mae *Who we are* yn archwilio stori Iddewon ym Mhrydain ac ar draws y byd. Mae hefyd yn cyflwyno'r ddau gymeriad Iddewig, David a Sarah, sy'n cyflwyno llawer o'r naratif trwy gydol yr adnodd ac felly'n ddolen gyswllt gyfarwydd bob amser i ddisgyblion (dyma un o'r ffactorau sy'n peri i'r adnodd weithio mor llwyddiannus). Mae *What we do* yn canolbwyntio ar amser (cylch bywyd, dyddiau gŵyl, a Shabbat), lleoedd (y cartref a'r synagog), a bwyd. Mae *What we believe* yn gwrando ar wahanol Iddewon yn trafod eu credoau, archwilio gweddi, gweithredoedd a gwerthoedd, y Torah ac Israel.

Cyflwynir y deunydd mewn nifer o wahanol ffyrdd i ysgogi disgyblion i fynd i'r afael ag ef a chynhwysir gweithgareddau yn ogystal.

Bu nifer o GYSAGau ar draws Cymru'n brysur yn dosbarthu'r CD ROM i'w hysgolion. Os nad ydych wedi derbyn copi di-dâl ac yn dymuno cael un, ewch i wefan www.jwol.org.uk am ragor o wybodaeth.

Tania ap Siôn

***Bible Timeline* [adnoddau cwricwlaidd Light] Scripture Union 2008, (cyhoeddwyd gyntaf ym 2004), 978-1-84427-362-1, poster lluniau lliw a nodiadau i athrawon £11.99.. Fersiwn Gymraeg: *Llinell Amser y Beibl*, 978-1-84427-363-8, £11.99.**

Er bod *Llinell Amser y Beibl* (ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg) wedi cael ei datblygu i gefnogi Light gan Scripture Union, sef amrediad o adnoddau cwricwlaidd ar gyfer plant a phobl ifanc, mae iddo hefyd gyfraniadau i'w gwneud i ysgolion eglwysig ac ysgolion gwladol. O safbwynt yr olaf,

mae'r adnodd yn cyflwyno arolwg o'r Beibl a 'hanes achub' o berspectif Cristnogol a gall hyn ategu ac ehangu dealltwriaeth disgyblion o'r Beibl fel llyfr sanctaidd.

O safbwynt cynnwys, poster ac arno 16 panel yn dangos llinell amser sy'n olrhain digwyddiadau a phobl pwysig y Beibl yw'r adnodd ac mae'n addas i ddisgyblion cyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3. O dan pob ffrâm, ceir cyfeiriad Beiblaidd byr sy'n cysylltu'r ddelwedd /digwyddiad â'r adran berthnasol o'r Beibl. I gyd-fynd â'r poster, ceir gwybodaeth ynglŷn â'r modd y rhoddwyd y llinell amser at ei gilydd yn ogystal â nodiadau, gweithgareddau a chwestiynau i'w defnyddio gyda'r llinell amser wedi ei chymhwyso'n benodol i gyd-destunau'n wedi eu sylfaenu ar y ffydd Gristnogol.

Mae'r *Big Bible Storybook Timeline* gan Scripture Union wedi ei sylfaenu ar yr un egwyddorion ac yn dilyn yr un strwythur sylfaenol â *Llinell Amser y Beibl*, ac yn addas ar gyfer plant dan bump oed.

Tania ap Siôn

Uwchradd

Terence Copley (2008), *Daring to Do What is Right: the story of Dietrich Bonhoeffer* [Faith in Action Series], RMEP, 978-1-85175-354-3, 24pp, Llundain lliw, clawr meddal, £4.99 (Pecyn 0 15, 978-1-85175-355-0, £69.86).

Y llyfr diweddaraf i'w ychwanegu at y gyfres *Faith in Action* ar gyfer disgyblion CA4, cyfres sy'n ehangu'n barhaus, yw hanes Dietrich Bonhoeffer (1906-1945), gweinidog Cristnogol a gŵr academiaidd.

Mae'r adnodd yn ail adrodd hanes bywyd Bonhoeffer fesul cam mewn adrannau cronolegol gan drafod ei hanes fel bachgen, dyn ifanc, darlithydd prifysgol, gŵr a wrthsafai Natsiaeth, cynllwynydd, gŵr dan amheuaeth a charcharor. Mae hefyd yn cynnwys adran ar dwf Natsiaeth yn yr Almaen, gan osod bywyd Bonhoeffer yn amlwg mewn cyd-destun ehangach. Mae pob adran yn hygyrch ac wedi ei hysgrifennu'n

dda a ceir cyfres o gwestiynau ym mhob un ohonynt: Beth ydy'ch barn chi?, sy'n gwahodd disgyblion i feddwl am agweddau ar y stori gyda mwy o fanylder.

Tania ap Siôn

Elicia Lewis (2009), *Truth-Seekers Series*, RMEP. Yn cynnwys tri llyfr, lluniau du a gwyn, clawr meddal, gyda phob un yn cynnwys CD (£39.93 y teitl).

***Thinking about God's Nature*, 978-1-85175-363-5, 80 tud.**

***Thinking about Truth*, 978-1-85175-364-2, 80 tud.**

***Thinking about God*, 978-1-85175-362-8, 80 tud.**

Mae'r gyfres *Truth-Seekers* yn darparu'n llwyddiannus adnoddau i athrawon ynghyd â'r hyder sy'n angenrheidiol i ddatblygu sgiliau meddwl effeithiol o safbwynt materion yn ymwneud â'r gwirionedd mewn crefydd ac athroniaeth. Mae pob llyfr yn cynnwys dwy neu dair uned a archwilir fel arfer trwy gyfrwng chwe cwestiwn allweddol i gyd-fynd â phob uned. Mae *Thinking about God's Nature* yn archwilio 'Sut un ydy Duw?' yn uned A ac yn uned B gofynnir 'Pam mae Duw'n caniatáu drygioni a dioddefaint?' Mae *Thinking about Truth* yn archwilio 'Theori gwybodaeth' yn uned A a 'dadlau'n effeithlon yn uned B. Archwilir y cwestiwn 'Beth yw gwirionedd?' yn uned C.

Mae pob uned yn dilyn yr un fformat sy'n gwyno a chlir. Rhestrir amcanion a chanlyniadau dysgu, adnabod cynsail athronyddol y cwestiwn, a gweithgareddau dysgu gydag awgrymiadau ar gyfer gwahaniaethu rhwng lefelau uwch ac is pob cwestiwn allweddol, er enghraifft. Mae taflenni gweithgareddau disgyblion wedi eu casglu ar ddiwedd pob llyfr i athrawon er hwylustod i athrawon, mewn maint A5 ac ar y CD i'w defnyddio yn yr ystafell ddosbarth mewn maint A4. Mae'r gweithgareddau'n dda a'r tasgau'n heriol.

Un nodwedd arwyddocaol yn y gyfres yw ei hyblygrwydd. Gellir ei defnyddio mewn nifer o wahanol ffyrdd i gwrdd ag anghenion disgyblion o gyfnod allweddol 2 i gyfnod

allweddol 5, gan ddilyn naill ai raglenni AG statudol neu fanylebau arholiadau perthnasol (o safbwynt yr olaf, nodir dolennau gyda manylebau CBAC yn y gwahanol unedau lle bo hynny'n berthnasol). Mae hwn yn adnodd rhagorol ac yn werth buddsoddi ynddo, am sawl rheswm.

Tania ap Siôn

***Science and Religion in Schools: a guide to the issues for secondary schools* (2006), Trafford Publishing, 141208424-5, 134tud, lluniau du a gwyn, clawr meddal, yn cynnwys CD ROM, £15.00. i weld sampl o'r deunyddiau ac i archebu, ewch i: <http://www.srsp.net>**

Lluniwyd y teitl hwn i hyrwyddo trafodaeth agored ar faterion yn ymwneud â gwyddoniaeth a chrefydd er mwyn sicrhau fod gan ddysgwyr rhwng 11 a 19 oed mewn ysgolion 'farn gytbwys ynglŷn â materion sy'n codi pan gymherir honiadau gwyddoniaeth â'r hyn a honnir gan brif grefyddau'r byd.'

Mae'r adnodd gwerthfawr hwn yn cynnwys pum pwnc ar gyfer dysgwyr rhwng 11 ac 16 oed a chwe phwnc ar gyfer y rhai rhwng 16 a 19 oed sy'n archwilio ystyr, gwerthoedd, gwirionedd a natur perthnasau dynol â'r byd, wedi eu cefnogi â nodiadau cefndir ac arolwg cyffredinol, chynlluniau gwersi, cwestiynau allweddol, deunyddiau adnodd i athrawon, deunyddiau cefnogol gwahaniaethol ar gyfer y myfyriwr a deunyddiau clyweled. Rhoddir lle hefyd i ddarparu sylfaen addysgol glir i athrawon o safbwynt defnyddio'r adnoddau.

Tania ap Siôn

Adnoddau arlein

Grid Cenedlaethol ar gyfer Dysgu, adnoddau i ategu Astudiaethau Crefydd CBAC, Manyleb B, Opsiwn A Crefydd a Materion Bywyd, <http://www.ngfl-cymru.org.uk>

Mae Grid Cenedlaethol Cymru ar gyfer Dysgu wedi cyflwyno nifer o adnoddau di-

dâl arlein i ategu addysgu a dysgu ar gyfer Astudiaethau Crefyddol CBAC, Manyleb B, Opsiwn A, Materion Crefydd a Bywyd sy'n ymdrin â 'Perthynas', 'Ein Byd Ni' a 'Chwilio am ystyr.'

Mae'r adnoddau wedi eu cynllunio i'w defnyddio gyda'r dosbarth cyfan, i hyrwyddo sgiliau meddwl a chynnal trafodaeth.

The Life of the Buddha (Rhagfyr 2008), Clear Vision, trwydded safle £49.00, <http://www.clear-vision.org>

Bernir ers cryn amser bod *Clear Vision* yn enw ers amser o fod yn brif ddarparwydd adnoddau safonol ar Fwdhaeth. Mae adnodd diweddaraf *Clear Vision, The Life of the Buddha* yn adnodd newydd arlein i'w groesawu ar gyfer cyfnod allweddol 2 a disgyblion iau cyfnod allweddol 3..

Mae *The Life of the Buddha* yn amlwg wedi ei rannu'n saith prif ran, yn cyfateb yn fras i gyfnodau allweddol ym mywyd y Bwdha: plentyndod Siddhartha; mynd allan i'r byd; Y Goleuo; y Bwdha'n penderfynu addysgu; addysgu'r Dharma; a dyddiau olaf y Bwdha, cyn cloi trwy archwilio delwedd y Bwdha. Mae pob adran yn rhoi cyfle i ddisgyblion glywed a gwyllo hanes bywyd y Bwdha ochr yn ochr â chwestiynau

perthnasol a heriol, a gweithgareddau sy'n annog disgyblion i feddwl ac ymateb i credoau a'r materion a godir. Yn ychwanegol, darperir dolennau â gwefannau defnyddiol sy'n cynnwys gwybodaeth ar gyfer gweithgareddau a sylfaenwyd ar waith ymchwil. Mae llew o'r enw Bodhi o gymorth i ddisgyblion gan eu tywys trwy adnodd; a helpu pe bai anawsterau'n codi.

Mae 'panel rheoli' yr athrawon yn eu galluogi i osod i fyny'r adnodd fel y gellir ei ddefnyddio gyda gwahanol grwpiau o ddisgyblion/dosbarthiadau ac i wyllo gwaith y disgyblion sydd wedi ei gadw. I'r gwrthwyneb, gall y disgyblion, hwythau, weld sylwadau eu hathrawon. Mae nodiadau llawn ar gyfer athrawon yn cynnwys arolwg da o'r adnodd yn ogystal ag arweiniad ar gyfer trafodaeth cyn dechrau gweithio arlein.

Mae'r adnodd hwn sy'n rhesymol ei bris ac yn soffistigedig yn rhoi llawer o gyfleoedd i ymdrin â'r tair sgil sy'n sail i'r *Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer cyflwyno addysg Grefyddol i ddysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru* i archwilio credoau, dysgeidiaethau ac arfer (ion) crefyddol a mynegi ymatebion personol.

Tania ap Siôn

Cyhoeddir *AGweddau* arlein ddwywaith y flwyddyn. Nid yw'r golygydd na'r bwrdd golygyddol yn derbyn y cyfrifoldeb am y safbwyntiau na'r datganiadau a fynegir gan yr awduron.

Mae'r golygydd yn gwahodd erthyglau'n trafod materion mewn meysydd sy'n berthnasol i addysg grefyddol, (ymchwil, datblygiad y cwricwlwm, crefydd a diwylliant). Dylai erthyglau ymchwil fod rhwng 1,500 – 3,000 o eiriau. Rhaid i'r erthygl a anfonir gynnwys deunydd gwreiddiol na chyhoeddwyd mohono o'r blaen ac nad yw dan ystyriaeth i'w gyhoeddi yn unman arall. Ni ddylai erthyglau a dderbynnir gan olygydd *AGweddau* gael eu cyhoeddi yn unman arall heb ganiatâd y golygydd. Dylid cyfeirio at y cylchgrawn mewn rhestrau llyfryddiaeth fel *REview Wales* (cylchgronau Saesneg) *AGweddau* (cylchgronau Cymraeg).

Cyfraniadau Dylid anfon cyfraniadau ar gyfer eu cyhoeddi a phob gohebiaeth olygyddol arall at: Ms Tania ap Siôn, Canolfan y Santes Fair, Llyfrgell Deiniol Sant, Church Lane, Penarlâg, Sir y Fflint, CH5 3DF. E-bost: tania.ap.sion@st-deiniols.org

Dylid anfon deunydd mewn Microsoft Word, fformat PC.

Dyfarnu Fel arfer, bydd erthyglau'n cael eu hadolygu gan ddyfarnwyr addas (yn ychwanegol at y golygydd), onibai ei bod yn amlwg nad ydynt yn addas o safbwynt amcanion a sgôp y cylchgrawn. Pwrpas y broses o adolygu yw sicrhau ansawdd yr erthyglau a gynhwysir yn y cylchgrawn. Bydd adborth o'r broses adolygu ar gael i awduron pe bai gofyn amdano.

Cyfeiriadau Lle bo hynny'n berthnasol, dylid dyfynnu cyfeiriadau yn y testun gan trwy roi enw'r awdur a'r flwyddyn, er enghraifft, (Smith and Jones, 1976) neu Smith and Jones (1976). Lle ceir mwy na dau awdur, cynhwysir yr holl enwau pan gyfeirir atynt y tro cyntaf, ond pan gynhwysir cyfeiriadau pellach atynt, dylid rhoddi enw'r awdur cyntaf gyda'r geiriau *et al* yn dilyn. Er enghraifft – cyfeiriad cyntaf: Nau, Caputo and Borkoven (1974) ond ar ôl hynny, Nau *et al* (1974).

Dylid rhestru'r cyfeiriadau'n llawn ar ddiwedd y papur yn y ffurf gydnabyddedig ganlynol:

Erthyglau Jones, A.N. (1990), Astudiaeth o gredoau a gwerthoedd, *AGweddau*, 14, 6-12.

Llyfrau Smith, A.N. (1990), *Religious Education Today and Tomorrow*, London, Thames Press.

Penodau mewn llyfrau Jones, A.N. (1990), Religious education, yn A.N. Smith and D.Z. Evans (golygyddion), *Society in Transition: an international perspective*, pp 213-248, Birmingham, Alabama, Religious Education Press.

Nifer o awduron Jones, A.N. and Smith, A.N. (1990)

Pan fo pob rhan o gylchgrawn yn dechrau gyda rhif 1, dylid cynnwys rhif y rhan fel a ganlyn: *Journals of Beliefs and Values*, 6(2). Mewn achosion eraill nid oes angen cynnwys rhif y rhan. Ni ddylid talfyrru teitlau cylchgronau.

Hawlfraint Yn unol ag un o amodau cyhoeddi, bydd angen i awduron drosglwyddo hawlfraint ar eu herthyglau, gan gynnwys crynodeb ohonynt, i Ganolfan y Santes Fair, Llyfrgell Deiniol Sant. Gall awduron ddefnyddio'r erthygl mewn manau arall, wrth gwrs, *ar ôl* cyhoeddi ar yr amod eu bod wedi derbyn caniatâd ymlaen llaw gan olygydd *AGweddau*. Mae awduron eu hunain yn gyfrifol am dderbyn caniatâd i gynhyrchu deunydd sydd dan hawlfraint o ffynonellau eraill yn eu herthyglau.

Adolygiadau o lyfrau ac adnoddau eraill Dylai awduron anfon adolygiadau o lyfrau neu fathau eraill o adnoddau i Ms Tania ap Siôn, Canolfan y Santes Fair, Llyfrgell Deiniol Sant, Church Lane, Penarlâg, Sir y Fflint, CH5 3DF. E-bost: tania.ap.sion@st-deiniols.org

Fel arfer dylid cyfyngu adolygiadau o adnoddau unigol i 600 o eiriau a chroesewir adolygiadau byrach. Dylai pob adolygiad ddarparu arolwg o gynnwys yr adnodd, peth gwerthuso a dangos defnyddioldeb yr adnodd ar gyfer addysg grefyddol. Dylai pob adolygiad gynnwys pennawd sy'n rhoi gwybodaeth lawn am yr adnodd, h.y, enw'r awdur, blwyddyn cyhoeddi, teitl ac isdeitl, cyhoeddwr, nifer tudalennau, clawr caled neu feddal, lluniau lliw neu ddu a gwyn, ISBN, a'r pris. Bydd y wybodaeth yn amrywio, wrth gwrs, yn ôl y math o ansawdd sydd dan sylw. Dylai pob adolygiad gloi ag enw'r adolygydd.